

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 344 - 60c
Mehefin 2016

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cymeriad
Papur Bro
Clonc**



Tudalen 9

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 23

**Lluniau
Carnifal
Cwmann**



Tudalen 8

Rali Iwyddiannus CFFI Sir Gâr



Aelodau Clwb Llanllwni yn ail.



Carys Thomas, Clwb Cwmann ymhlith llysgenhadon y sir yn y Rali eleni.

Brigâd Dân yn yr ysgol

Ysgol Bro Pedr



Sgets buddugol Merched y Wawr



Aelodau Cangen Llanbed yn enillwyr cenedlaethol.



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@CSCeredigion](https://twitter.com/CSCeredigion)
Mai 20

Ar ôl bron 2 fis mae
gwaith i adnewyddu
pont Llanfair Clydogau
wedi ei gwblhau.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@DyffrynCledlyn](https://twitter.com/DyffrynCledlyn)
Mai 20

Rafft yn amofio - a
phawb arni! Diolch
[@glan_llyn](https://twitter.com/glan_llyn) a diolch
[@UrddCeredigion](https://twitter.com/UrddCeredigion)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)
Mai 18

Festri Shiloh yn llanwr
ar gyfer Pobl yr Ymylon
Idwal Jones heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@TheatrFelinfach](https://twitter.com/TheatrFelinfach)
Mai 14

Oedd hi'n noson
dda [#CardiGân](https://twitter.com/CardiGân)
[#CorMeibionCaerfyrddin](https://twitter.com/CorMeibionCaerfyrddin)
yn Neuadd Gorsgoch.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@ElinCeredigion](https://twitter.com/ElinCeredigion)
Mai 10

Dyma ni nôl yn
y Cynulliad. Dau
gyn-ddisgybl Ysgol
Llanwnnen a
[@YsgolBroPedr](https://twitter.com/YsgolBroPedr)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@SionASian](https://twitter.com/SionASian)
Mai 6

Llongyfarchiadau
mawr i Berwyn ac Elin!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

**LAS
Recycling Ltd**



**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach**
Am wasnaeth cost effeithiol
a dibynadwy ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion. SA48 8LT

**Gwasanaeth biniau ar olwynion
(1100L, 660L a 240L)**



01570 421421

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mehefin Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Gorffennaf Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Pobol yr Ymylon

Dwi ddim erioed wedi bod yn un am fynychu'r theatr i wyllo dramâu. A dweud y gwir, rydw i ofn mynd i wyllo dramâu byth ers i fi gael row yn yr ysgol nes o'n i'n tasgu; roeddwn i, a chriw bach o ffrindiau, wedi 'difetha' perfformiad gan theatr deithiol wrth i chwerthin fynd yn drech na ni. Rwy' hefyd yn cofio sylw wnaed pan o'n i yn fy arddegau – taw fy chwerthiniaid i a mam-gu oedd fwy amlwg i'w glywed yn y gynulleidfa mewn rhyw berfformiad yn Theatr Felinfach. Wps! Mae'n amlwg felly taw comedi yw'r unig beth sy'n saff i fi ei wyllo.

Ond pan glywais i fod drama Idwal Jones, Pobol yr Ymylon, yn dod nôl i Llambled fis diwetha', ro'n i'n sicr am gefnogi. Roeddwn i'n gwybod fod Idwal Jones yn ffond iawn o gomedi, felly roedd gobaith y byddai yn y ddrama hon rywfaint o ysgafnder. Roedd gwybod bod Ifan Gruffydd yn actio hefyd yn glw y byddai elfen ddoniol yn perthyn iddi. Ches i mo fy siomi.

Dyma ddrama wych. A dwi ddim yn dweud hynny'n ysgafn ac yn ystrydebol. Roedd sgript Idwal Jones yn ddealladwy ac yn naturiol. Roedd yr actio gan aelodau Theatr Gydweithredol Troedryhiw yn gredadwy ac yn plesio. Doedd y ddrama ddim yn rhy hir; fe fennodd hi'n ei blas. Doedd 'na ddim byd gor-gymhleth amdani, dim gormod o gymeriadau i ni gofio amdany'n nhw, dim is-blot a chyfeiriadaeth a chymariaethau i flino'n meddyliau. Ond nid drama ysgafn, arwynebol mohoni chwaith – mae iddi ddyfnder sy'n profi y tu hwnt i amser. Mae'n ymwneud â gwraidd ein bodolaeth ni: ein delwedd, ein rhagrith, ein parchusrwydd, ein ffydd a'n crefydd, ein ymwneud ag eraill, ein cymdeithas.

Meddai Lyn Ebenezer yn Y Cymro wrth adolygu gwaith Theatr Gydweithredol Troedryhiw yn llwyfannu Pobol yr Ymylon: 'Nid rhyw lwyfaniadau avant garde ffug-ddiwylliannol arti-ffarti, nid rhyw gyfieithiadau Seisnigaidd eu hanfod. Nid rhyw ddramâu cymhleth sy'n denu rhyw lond dwrn i'w gwyllo. Na, eu harlwy bob amser yw llwyfaniadau sy'n denu'r bobl gyffredin, yn cynnwys pobl yr ymylon.' Amen, ddweda' inne.

Cloncen

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Mae etholiad mis Mai yn teimlo fel amser maith yn ôl bellach, ond hoffwn ddechrau trwy ddiolch i bobl Ceredigion am ymddiried ynof i'w cynrychioli yn y Senedd am y pumed tro.

Mae hi'n anrhydedd enfawr cael fy ail-ethol fel Aelod Cynulliad Ceredigion, a hoffwn ddiolch i'r holl wirfoddolwyr a ddioddefodd gwynt, glaw a hyd yn oed eira i gefnogi fy ymgyrch, ac am y croeso cynnes a dderbyniais ar stepen drws mewn trefi a phentrefi ledled Ceredigion.

Daeth cefnogaeth o bob rhan o'r Sir – Gogledd a De, gwledig a threfol – ac mi fyddaf yn gweithio'n ddiflino i wneud yn siŵr bod anghenion Ceredigion yn cael y sylw y maent yn eu haeddu yn y Cynulliad.

Tasg gyntaf y Cynulliad newydd oedd penodi Llywydd - yr unigolyn sy'n gyfrifol am gadeirio dadleuon yn y Senedd. Roedd hi'n ffrainc cael fy newis am y rôl gan fy nghyd-aelodau, ond yr anrhydedd mwyaf oll oedd cael fy ethol gan bobl Ceredigion i wasanaethu fel eu AC.

Mi fydd fy nyletswyddau lawr yng Nghaerdydd yn newid mymryn yn sgil hyn – dim rhagor o eistedd ar bwyllgorau ar ran Plaid Cymru, na siarad fel Gweinidog Iechyd cysgodol Plaid Cymru mwyach – ond Ceredigion yw fy mlaenoriaeth o hyd.

Byddaf yn parhau i gyflawni fy nyletswyddau etholaethol, ac i hyrwyddo achosion a buddiannau pobl y sir mor ddiwyd ag erioed. Yn wir, un o'm gweithredoedd cyntaf fel AC oedd cynnal cymhorthfa ag etholwyr Ceredigion i drafod eu pryderon.

Mae'r uno arfaethedig o Dai Cantref â chymdeithas tai arall - Wales & West Housing - yn destun gofid i lawer, ac mae'n amlwg nad oedd tenantiaid, staff, na'r gymuned ehangach yn ymwybodol o fwriad y Bwrdd.

Mae Tai Cantref yn meddu ar nodweddion cymunedol cryf, ac yn gymdeithas gwbl ddwyieithog. Mi fyddai ei huno gyda chymdeithas tai sydd llawer yn fwy ac wedi ei rhedeg o du allan i'r ardal yn peryglu uniondeb a pharhad ei gwaith. Rheolaeth leol sydd angen ar ein tai cymdeithasol, nid cael eu cymryd drosodd gan gwmni mawr allanol.

Mae'n hanfodol felly bod y Gweinidog Tai newydd yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad a geir yn diogelu buddiannau tai cymdeithasol yng Ngheredigion.



Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn
cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Sue's Hair Stylist




- Edafu
- Trin ewinedd
- Trin traed



- Triniaeth hwyneb
- Lliwio ael a lliwio blew llygaid

Cynigion arbennig yn yr ystafell driniaeth newydd



Ystafell driniaeth newydd ar agor nawr!!

- Tylino pen Indiaidd
- Tylino Sweden
- Tylino cerrig poeth a llawer mwy o driniaethau

Dewch i brofi tylino pen Indiaidd a fydd yn eich rhyddhau o straen a thensiwn, ac yn eich gadael yn teimlo yn hamddenol, wedi adfywio ac ail fywlocu

Cysylltwch â:
Sue Hairstylist
Pencader
Rhif ffôn - 01559384794



Hwre ! Mae'n Haf

Wrth gamu o un tymor i'r llall, mae'n adeg cyffrous yn y gegin, oherwydd daw bwydydd gahanol i'w tymor. Ar ddechrau'r haf fel yma, - gan obeithio am dywydd braf, - rydym yn troi ein sylw at brydiau ysgafn, blasus a lliwgar.

Mae'n gyfle i arbrofi hefyd! Felly, dyma gasgliad o rysetiau i'ch harwain drwy fis Mehefin, - â Iogwrt Groegaidd, sy'n ffeffryn gen i, yn seren y rysetiau.

Mwynhewch,

Gareth

Coleslaw gwahanol

- 2 afal bwyta, Sudd 1 lemn
- 3 llond llwy fwrdd mayonnaise
- 3 llond llwy fwrdd o Iogwrt Groegaidd
- 1 llwy de o fwstard cyflawn
- 1 llwy de o fêl
- 150 g betys wedi coginio
- 2 ddarn o seleri, 3 shibwns
- Llond llaw o hadau blodau'r haul



Dull

1. Sleisiwch yr afal yn denau, a chymysgwch â'r sudd lemn.
2. Cyfunwch y mayonnaise, iogwrt, mêl a'r mwstard i greu 'dresin'.
3. Gratiwch y betys, a thorwch y seleri a'r shibwns.
4. Cymysgwch y cyfan mewn powlen fawr.
5. Gweinwch ar wely o ddail letys, a sgeintiawch ychydig o hadau blodau'r haul ar yr wyneb.

Paflofa Cegin Gareth

- 6 gwyn-ŵy
- 300 g siwgr mân
- 300 ml iogwrt Groegaidd trwchus
- Tua 500 g mafon a mefus
- 100 g siocled gwyn wedi'i doddi



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C, 180 C ffan, Nwy 6
2. Leiniwch dun â phapur gwrthsaim, a thaenwch y siwgr arno. Pobwch am 5 munud yn unig.
3. Trowch y ffwrn lawr i 120 C, 100 C ffan, Nwy ½.
4. Chwisgiwch y gwyn wy nes ei fod yn bigau, ac yna ychwanegwch y siwgr yn raddol.
5. Gosodwch y 'meringue' ar y papur gwrthsaim, gan greu siâp nyth. Pobwch am 2 awr. Gadewch i oeri.
6. Llenwch â'r iogwrt a'r ffrwythau. Sgeintiawch â'r siocled ac ychydig siwgr eis.

Eog a 'Houmous' gwyrdd

- 4 ffyled eog
- Sudd 1 lemn
- Ychydig mintys ffres
- 1 tun 400 g ffa 'chickpeas'
- 200g pŷs
- 2 llwy fwrdd 'tahini'
- 50 ml iogwrt Groegaidd
- 150 g dail roced



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C, 180 C ffan, Nwy 6
2. Gosodwch yr eog ar ddisgyl bobi, gyda sudd ½ lemn, ychydig olew a'r dail mintys. Ychwanegwch 50 ml o ddŵr, a gorchuddiwch â ffoil. Pobwch am 13 – 15 munud.
3. Mewn prosesydd bwyd, gosodwch y mintys, ffa, pŷs, tahini a'r iogwrt. Rhedwch y prosesydd i'w troi'n bast.
4. Gweinwch yr 'houmous' ar blatiau, gan roi'r eog ar ei ben; ychydig o ddail roced a sudd lemn, olew a phupur du.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*



MEHEFIN

- 2-5 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
- 4 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Nhalybont.
- 10 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Noson Gwis, Clwb Rygbi Aberaeron.
- 11 Bore Coffi Neuadd yr Hafod Gorsgoch gyda Chapel Brynhafod.
- 10yb - 1yp.
- 14 Cyfarfod Ras yr Iaith yn Llain y Castell, Llanbed am 7.30yh.
- 15 Cyflwyniad i'r i-pad yn Swyddfa CAVO Llanbed 10yb i 3yp.
- 17 Ysgol Llanwenog yn cynnal ei Ffair Haf blyneddol.
- 18 Diwrnod lawnsio llaw-lyfr newydd Eglwys Llanwenog.
- 19 Gymanfa Ganu am 6.30yh yng nghapel Aberduar, Llanybydder.
- 20 Helfa drysor car am 6.00yh i ddechrau yng Nghlwb Rygbi Llanybydder. £5 y car.
- 21 Bingo 8yh yn y clwb Rygbi Llanybydder.
- 22 Helfa drysor cerdded yn gadael Tanygraig, Llanybydder am 6.30yh.
- 24 Cwis yn Llew Du, Llanybydder am 7yh. £10 am dimoedd o 4.
- 25 Carnifal blyneddol Llanybydder yng nghae rygbi Llanybydder i ddechrau am 1.00yp. Thema gwisgo lan yw Hollywood.
- 25 Cyngredd Côr Meibion Cwmman a'r Cylch gyda Catrin Aur ac Ysgol Carreg Hirfaen yn Neuadd Sant Iago Cwmman. Elw tuag at Apêl Ambiwlans Awyr Cymru.
- 26 Cyngredd yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi am 7.30yh.
- Artistiaid: Côr y Gen o Aberystwyth. Elw tuag at y Capel. Tocyn £5.
- 27 Derbyn Newyddion CLONC.
- 28-30 Taith Nansi Theatr Genedlaethol Cymru yn Neuadd Goffa Aberaeron am 7.30yh (ac am 1.30yp ar y 30ain).

GORFFENNAF

- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p.
- 7 Ras yr Iaith yn dechrau o Gwmman tuag at Lanbed am 12.30yp
- 9 Diwrnod Agored Ysgol Carreg Hirfaen rhwng 10yb a 2yp.
- 9 Mabolgampau Pentref Cwrtnewydd.
- 23 Ffair Fwyd Llanbed ar gampws y Drindod Dewi Sant.
- 30 Carnifal Llanbed.
- 31 Cymanfa Ganu Dathlu'r Deg Côr Corisma am 2.00y.p ar dir Lllys Barcud, Cellan a the prynhawn.

AWST

- 8 Noson Bingo Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn Llanina, Llanarth.
- 12 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- 13 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 20 Sioe Gorsgoch.
- 21 Ras Hwyaid Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn fferm Glanwern, Felin-fach.
- 27-29 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbed.

MEDI

- 3 Mike Doyle a'i Fand a Glan Davies yn Neuadd Lloyd Thomas am 7.00y.h. Tocynnau: Eirian ar 422240. Elw tuag at Prostate Cancer a Man Van (Tenovus).
- 10 Ffair Ram, Cwmman.



Tîm Ieuenctid Llanbed ar ôl buddugoliaeth yn erbyn Cydweli i sicrhau'r nifer fwyaf o bwyntiau yng Nghynghrair Gorllewin Sir Gâr. Yn anffodus, ni chafodd y tîm ei benodi fel pencampwr oherwydd system 'ratio' Undeb Rygbi Cymru. Er bod Llanbed wedi ennill 51 pwynt ar ôl chwarae 14 gêm, fe gafodd Crwydrwyr Llanelli eu hadnabod fel pencampwr y gynghrair, er taw 43 o bwyntiau oedd ganddynt ar ôl chwarae 11 o gemau.

C.Ff.I. Llanllwni

Ar y 14eg o Fai roedd Rali Cffi Sir Gâr ar safle'r sioe yn Nant-y-ci, ac ar ôl hir baratoi yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu aelodau'r clwb yn cystadlu'n frwd ac yn mwynhau'r profiad. Roedd rhai o'r aelodau yn nerfus iawn yn cystadlu am y tro cyntaf, ac eraill yn drist am eu bod yn cystadlu am y tro olaf! Daeth cyfanswm o 5 cwpan yn ôl i'r clwb ar ddiwedd diwrnod prysur o gystadlu. Yn ogystal, daeth tarian yr 2il safle yn yr adran hŷn yn ôl i Llanllwni am yr ail flwyddyn yn olynol. Llongyfarchiadau enfawr i bawb a wnaeth gystadlu i sicrhau llwyddiant ysgubol i'r clwb eleni eto. Diolch hefyd i bawb a oedd wedi cynorthwyo'r aelodau mewn unrhyw fodd ym mhob cystadleuaeth, ac i rhieni'r aelodau ifancaf am eu tywys o amgylch yr ardal i'r gwahanol ymarferion. Roedd eich cyfraniad i gyd yn cyfri tuag llwyddiant y dydd!

Dyma restr o ganlyniadau'r dydd: Gwaith coed hŷn 1af – Carwyn Lewis ac Arwel Jones, 3ydd – Sion Evans a Dan Joynson; Creu 'Time Capsule' 1af – Hefin Jones; Crefft – Creu 5 eitem i ginio ddathlu 1af – Meryl Davies, Siriol Howells a Ceris Howells; Ceginio Hŷn 1af – Ceiros Lewis a Jac Jones; 'It's a Knockout' 1af – Meryl Davies, Ifor Jones, Sion Evans a Zac Addison; Gosod Blodau 2il – Nerys Thomas; 'Generation Game' 2il – Sara Thomas a Luned Jones; Barnu Stoc – Defaid Lleyen 2il – Owain Davies ac Alwyn Evans; Treialon Cŵn Defaid 2il – Ifor Jones a Betsan Jones.

Ar nos Wener yr 20ed o Fai cynhaliwyd ein helfa drysor flynyddol, a oedd yng ngofal Siôn, Hefin, Ifor ac Aled. Diolch i chi fechgyn am drefu'r noson, ac am bawb a ddaeth i'n cefnogi. Roedd yna gyfanswm o 14 o geir wedi troi allan ar noson ddigon garw, ond er gwaethaf y tywydd daeth sawl trysor yn ôl i Talardd ar ddiwedd y noson! Llongyfarchiadau i Geraint, Marian a Betsan, Highview am ddod i'r brîg, efo Arwel, Marion a Ceris Pantglas yn yr ail safle. Diolch yn arbennig hefyd i garej Windy Corner am rhoi tocyn gwerth £25 yn wobwr i'r noson.

Ymddeoliad Hapus

Dymuniadau gorau i Avril Jones gynt o Alderwell, Llanllwni ar ei hymddeoliad. Bu'n gweithio i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am bron ddeugain mlynedd lle'r oedd yn Gyfarwyddwraig Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus.

Diolch

Mae Dewi Davies, Glanafon bellach wedi rhoi'r gorau i fod yn ohebydd yn Llanllwni. Mae Dewi wedi cyfrannu'n helaeth ar hyd yr holl flynyddoedd ac rydym am

ddiolch iddo o waelod calon.

Gohebydd newydd Llanllwni yw Eirlys Owen, Cwmderi. Felly, danfonwch eich newyddion ati hi o hyn ymlaen. Diolch.

Gwellhad Buan

Derbyniodd Mrs Eirian Williams, Cwmawel driniaeth yn ysbyty Llanelli yn ystod y mis. Gobeithio eich bod yn cryfhau bob dydd.

18 oed

Ar Fehefin 3ydd bydd Sara Thomas, Cross Roads yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Gobeithio y byddi yn mwynhau'r dathlu.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Gwellhad buan i Mrs. Ifora Parry, Panteg ar ôl ei harosiad yn Ysbyty Glangwili.

Undeb y Mamau

Aethom ar ein taith flynyddol eleni ar Fai'r 17eg i Gastell Picton ger Hwlfordd. Arweiniwyd ni o gwmpas y castell gan Susan un o'r tywyswyr, a rhyfeddwyd at ei gwybodaeth eang ar hanes y safle a helynt y teuluoedd a fu'n ymgartrefu yno. Synnwyd at foethusrwydd yr ystafelloedd "lan llofft" a phrofwyd bywyd "o dan grisiau" hefyd. Roedd digon o amser i grwydro'r gerddi, a rhyfeddu at y plannu sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd. Ni wnaeth y glaw mân amharu ar ein hedmygedd.

Treuliwyd awr neu ddwy yn Arberth i ddilyn, a chawsom swper hyfryd yn Nant-y Ffin, Llandysilio.

Diolch am gael llogi bws y Gymuned o Landysul, a diolch yn ddiffuant i Marion Howells am ein cyrchu'n ddiogel ar hyd y daith.

Bydd Noson Goffi flynyddol Eglwys Sant Luc ar nos Iau, Mehefin 30ain. Y Llywyddion fydd Arwyn ac Eiryth Thomas (Gwndwn gynt) o Gaerfyrddin.

Cylch Meithrin Llanllwni

Yn ystod mis Mai gwnaeth y plant gymeryd rhan mewn taith gerdded a phicnic Eirth Bach i godi arian i Apêl Arch Noa, Ysbyty Plant Caerdydd.

Cylch Ti a Fi

Gweithgareddau Cylch Ti a Fi mis Mehefin: 10/6-Ymarfer Mabolgampau; 17/6-Cardiau Sul y Tadau; 24/6-Parc; 1/7-Little Mzzz.

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 9:30yb hyd 11:30yb yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a tadcu's i ddod gyda'u plant i gymeryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i Dave a Tracy Siop y Pentre am ei rhodd caredig o 1/2 yr elw a wnaed o'r Raffl Nadolig.



Alwena Mair Owen, Cwmderi wedi ei llwyddiannau canlynol: Eisteddfod Maenclochog yn ennill 1af ar yr unawd 7-9 oed, yr Alaw Werin a'r canu emyn dan 12 oed a chyntaf am ddarllen darn o'r ysgrythur dan 12 oed ac yn ogystal â ennill Tarian Nest am y cystadleuydd mwyaf addawol o dan 12 oed; Eisteddfod Pontrhydfendigaid 1af ar yr Unawd blwyddyn 3 a 4 a'r Alaw Werin oed blwyddyn 6 ac Iau; Eisteddfod Rhydlewis 1af ar yr Unawd dan 10 oed a'r Alaw Werin blwyddyn 6 ac Iau; Eisteddfod Pontardulais 1af am Adrodd dan 10 oed ac o dan 13 oed, Ail ar Unawd dan 10 oed, yr Alaw Werin a'r canu Emyrn dan 18 oed.

Ysgol Llanllwni

Hoffwn ddiolch i Ymddiriedolaeth R.R. Davies am y rhodd o £1000 i'r ysgol. Bydd yr arian ym mynd i ddatblygu'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen.

Diolch hefyd i Dave a Tracy, Siop y Pentre, am rodd o £35 i'r ysgol yn dilyn raffl a wnaethant adeg y Nadolig.

Bu'r plant i gyd ar drip addysgiadol i'r Gerddi Botaneg. Bu'r plant lleiaf yn dysgu am wahanol hadau ac yna plannu hadau blodau tra bu'r plant hŷn yn edrych ar gylch bywyd planhigion. Cawsom gyfle hefyd i grwydro o amgylch y gerddi a'r Tŷ Gwydr.

Yn ein sesiynau Urdd rydyn wedi cael noson gwis, parasiwt a rownderi. I orffen sesiynau'r Urdd buom ar drip i "Ar y Bêl" ger Aberaeron. Ar ôl hanner tymor fe fydd Campau'r Ddraig yn dechrau i blant Cyfnod Allweddol Dau.

Daeth Sara o "Jambori" i gynnal sesiwn gyda dosbarth y Cyfnod Sylfaen a'r Ysgol Feithrin. Cawsant hwyl yn canu a symud i gerddoriaeth.

Mae Jac Rees, Swyddog Datblygu sgiliau rygbi, wedi bod yn dod yn wythnosol i roi sesiynau i'r plant yr Adran Iau. Erbyn hyn mae'n cymeryd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 a maent yn disgwyl mlaen at ei ymweliad ar fore Llun.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr



Gwennan Lloyd Owen, Cwmderi a'i chwpannau wedi ei llwyddiannau canlynol: Eisteddfod Rhydlewis 1af ar yr Unawd ac ail am adrodd dan 6 oed; Eisteddfod Llandudoch: 1af ar yr Unawd a'r Adrodd dan 6 oed ac yn ennill gwobr Calon Ifanc Llandudoch blwyddyn 2 ac Iau am y perfformiad Unigol gorau ar y llwyfan.

yr ysgol- Mis Ebrill – 1af - £10 – W.Brailey, Teify Valley, Llanybydder; 2ail - £5 – Russell a Betty Tyngrug, Llanllwni; 3ydd - £5 – Melvyn Rees, Garej Llys-y-wawr, Llanllwni. Mis Mai- 1af - £10 – Adrian George, Haulfryn, New Inn; 2ail - £5 – Anne Gibby, Erwlon, Llanybydder; 3ydd – Robert Howie, Glandŵr.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Llew a Carol Davies, Derlwyn ar golli Mam a Mam yng nghyfraith yn ddiweddar sef Mrs Maud Davies.

Cywiriad

Cyhoeddwyd genedigaeth mab bach i Nigel a Rhian, Brynhedd yn rhifyn diwethaf Clonc. Ymddiheuriadau am gyhoeddi'r enw anghywir. Dymuniadau gorau felly i Jac Elwyn.

Lleisiau Bro Eirwyn

Ydy chi ferched yn mwynhau canu a chymdeithasu? Os felly, byddwn yn hoffi cael eich cwmni yn Nhafarn yr Eagle, Llanfihangel-Ar-Arth ger Llandysul ar nos Iau [tymor ysgol yn unig].

Dewch atom ar Fehefin 9fed am 8.00y.h.

Croeso i chi gysylltu ag Eleri 07758 081813 eleri.samson@btinternet.com neu Nia ar 07968 223653 niawyn@maesglas50.freemove.co.uk am ragor o fanylion.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld.



Cymanfa Dathlu'r Deg

Côr Corisma

Dydd Sul Gorffennaf 31ain am 2.00 o'r gloch ar dir Llys Barcud, Cellan

Ymunwch â'r côr i ddathlu 10 mlynedd o ddiddanu a chanu mewn Cymanfa Ganu yng nghwmni aelodau'r côr a ieuencid yr ardal gydag arweinyddion ymhlith aelodau'r côr. Yr elw tuag at elusen Hafal.

Bydd Te Prynhawn i bawb.





Disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen ym Mhentywyn.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Fenela Strange a'r teulu, Y Ficerdy ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

Hefyd, cydymdeimlwn â Rhian ac Elma, Hafod Cottage ar farwolaeth ei chwaer Eiddwen a fu farw yn Ysbyty Bronglais yn ystod y dyddiau diwethaf.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Dai Griffiths, Brynhathren ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed. Gobeithio i chwi fwynhau y diwrnod a phob dymuniad da.

Ysbyty

Danfônwn ein dymuniadau gorau i David Morgan, Haulfryn sydd yn yr ysbyty. Gan obeithio eich bod yn teimlo'n well ac i unrhyw un arall sydd wedi bod yn anhwylyd hefyd.

Sefydliad y Merched

Ar y trydydd o Fai, teithiodd ryw dair ar ddeg o'r aelodau i Henllan ger Llandysul i ymweld â Stiwdio Celfyddyd Gain - Diane Mathias, yr arlunydd.

Adeiladwyd y stiwdio bwrpasol yma ryw wyth mlynedd yn ôl, ac mae ynddi ofod i Diane wneud ei gwaith fel arlunydd, yn ogystal ag ystafell i arddangos ei lluniau.

Roedd yn wledd i'r llygad i weld y gwaith godidog a wneir gan Diane, a gwnaeth y mwyafrif ohonom brynu rhai eitemau ohono. Mae'r stiwdio ar agor i'r cyhoedd ar bedwar diwrnod o'r wythnos, ac yn ystod y diwrnodau rhydd sydd ganddi bydd Diane allan yn y wlad oddi amgylch yn creu mwy o luniau trawiadol.

Diolchwyd iddi am noson wych gan Elma.

Aethom ymlaen wedyn i Westy'r Daffodil ym Mhenrhiwllan, lle cawsom bryd blasus o fwyd cyn cynnal cyfarfod busnes byr o dan lywyddiaeth Elma. Diolchodd i Gwyneth am drefnu noson ragorol ar ein cyfer a hynny ar fyr rybudd.

Gwnaed trefniadau ar gyfer ein cyfarfod agored nesaf, pan bydd

Helen Whithouse o gwmni 'House of Colour' yn Hwlfordd yn dod atom i egluro i ni y modd i ddewis lluniau [colur, gwisgoedd ayb] sy'n cyd-weddi a'n lliwiad naturiol ein hunain. Os am brofiad gwahanol, dewch, ymunwch â ni Nos Lun, 6ed o Fehefin am 7:30y.h. yn y Ganolfan.

Clwb 225

1. Mr a Mrs W. Edwards, Ddeunant, Cwmann, 173. 2. D. Herbert, Dolfor, Cwmann, 2. 3. Wynford Thomas, Pantygwin, Cellan, 140. 4. Rhonwen Thomas, Pantygwin, Cellan, 139. 5. Aled Davies, Tremle, Cwmann, 91. 6. Dafydd Jones, Bara Gwalia, Llanybydder, 111. 7. Ieuan Jenkins, Pennant, Rhydcymerau, 118. 8. Timothy Evans, Efail Fach, Llanfair, 3. 9. Mr a Mrs Eddie Thomas, Ardwyn, Cwmann, 18. 10. Ann Douch, Moestroyddyn Fawr, Harford.

Neuadd Sant Iago Clwb 125

Mis Mai - 1. Mrs Eileen Morgan, Haulfryn, Cwmann, 125. 2. Mrs M. Thomas, Brondeifi, Cwmann, 66. 3. Mrs Yvonne Davies, Cwm Brwyn, Pencader, 123. 4. J. Brown, Tŷ Helyg, Cwmann, 37. 5. Mrs Eiry Jones, Eirlyn, Bryn Steffan, Llambod, 91. 6. Phillip Lodwick, Penrhyn, Cwmann, 138. 7. G. Evans, Felinfach, Cwmann, 36.

Diolch

Dymuna Ceinwen Russell, Coedeiddig ddiolch o galon am y llu o gardiau, blodau ac anrhegin ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn yn ogystal i bawb wnaeth alw neu gael sgwrs dros y ffôn. Diolch.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu disgyblion yr ysgol yn codi arian ar gyfer elusen L.A.T.CH yn ddiweddar efo'r nod o brynu Carafan ar Faes Gwyliau Kiln Park yn Ninbych y Pysgod er cof am Chloe Evans a gollodd ei bywyd y llynedd i glefyd cancr. Trwy werthu



Tîm pêl-droed merched Ysgol Carreg Hirfaen a enillodd Bencampwriaeth Sir Gaerfyrddin.



Tîm pêl-droed bechgyn blynyddoedd 3 a 4 Ysgol Carreg Hirfaen ym Mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin.



Tîm pêl-droed bechgyn blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Carreg Hirfaen ym Mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin.

tocynnau raffl a threfnu disgo hwyl llwyddwyd codi £335 tuag at gronfa "Carafan Chloe". Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.

Bu tîmau pêl-droed yr ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Pêl-Droed Sir Gaerfyrddin ym mis Mai. Tra bo tîmau bechgyn blynyddoedd 3 a 4 a blynyddoedd 5 a 6 wedi chwarae yn rhagorol ar y noson gan ennill y mwyafrif o'u gemau, colli ambell gêm a rhai gemau cyfartal, aeth y merched ymlaen i ennill y twrnament gan aros yn ddi-guro trwy gydol y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd Carreg Hirfaen.

Carai staff a disgyblion Carreg Hirfaen ddiolch o galon i fusnesau V2G Perpetual, Kangaloos a JH Roberts am eu caredigrwydd wrth noddci citiau pêl-droed newydd i'r ysgol. Mae pawb yn cytuno bod y bechgyn a'r merched yn edrych yn smart iawn.

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn derbyn hyfforddiant beicio diogel yn ystod y mis gan ennill tystysgrifau safon Lefel 1 a 2 mewn diogelwch heol. Diolch i PC Eleri am hyfforddi'r plant.

Cynhelir diwrnod agored yr Ysgol ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed, rhwng 10yb a 2yp. Estynnir croeso

Cwmann

cynnes i'r gymuned ehangach i ymweld â'r ysgol newydd a chael cipolwg ar yr adeilad ysblennydd a'r adnoddau hyfryd sydd ar gael yma.

Carai'r ysgol groesawu Mr Emyr Thomas atom yn ei swydd newydd fel Gofalwr Ysgol. Diolch hefyd i Mrs Tegwen Williams am ei gwaith da ar hyd y blynyddoedd.

Bu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn mwynhau wythnos o weithgareddau preswyl ym Mhentywyn yn ystod y mis. Llwyddodd pob plentyn i abseilio, dringo, canwio, syrffio, crwydro'r ogofau ar yr arfordir, a mwynhau reid antur ar y wifren Zip. Uchafbwynt yr wythnos i lawer oedd cysgu allan yn y goedwig am noson a dysgu sgiliau goroesi yn yr awyr agored. Diolch i Gethin a holl staff y gwersyll am y croeso.

Cafwyd prynhawn hwylus iawn lawr ar gaeau Ysgol Bro Pedr yn ddiweddar pan gymerodd plant Cyfnod Allweddol 2 ran yn y chwaraeon Potes a drefnwyd gan yr Urdd.

Ar ddydd Iau y 19eg o Fai, aeth plant dosbarth Meithrin a Derbyn yr ysgol am daith i Filfeddygfa Steffan yn Llambled. Roedd yr ymweliad yn rhan o waith y tymor ac yn ymwneud â chathod ac anifeiliaid. Cawsom groeso cynnes yno a diolchwn i'r staff am roi eu hamser i drafod ac i ddangos eu gwaith.

Pencarreg



O Ddolwafach i Winsor. Bu cyffro mawr yn stablau Henbant yn ddiweddar. Y chwiorydd Annie 5 oed a Megan 4 oed oedd wrthi'n golchi, siampŵo, brwsio, cribo, plethu ac yna sgleinio carnau eu ceffylau, Thistledown Queen of clubs a Choeden Sir Galahad. Roedd y ddwy wedi casglu niferoedd o wobrau mewn sioeau ac yn awr roeddent am fynd i Sioe Frenhinol Winsor!! Bant â nhw'n y lorri gyda Rachael eu mam wrth y llyw. Llongyfarchiadau i'r ddwy wnaeth mor dda yn eu tymor cyntaf yn y lead rein. Y ddwy wedi cael safle uchel mewn cystadlaethau niferus. Ar drot i Lanelwedd nesaf!! Mwynhewch eich dwy..

Merch fach

Yn y rhifyn diwethaf o 'CLONC' gadawyd enwau allan o restr llongyfarchiadau i Megan a Shaun Jones, Llwynian ar enedigfaeth merch fach - Matilda. Llongyfarchiadau felly i Anwen a Mike Hall, Llambled ar gael goryres fach, Matilda Efa.

Llwyddiant Eisteddfodau



Llongyfarchiadau i Cerys Angharad yn yr Eisteddfodau canlynol: Yr Hendy- 1af Unawd dan 10, 3ydd Llefaru dan 10, 3ydd Unawd offeryn cerdd dan 15oed, 2il Unawd Alaw Werin dan 18 oed. Eisteddfod Llandudoch - 1af Unawd Bl 3 a 4, 2il Llefaru Bl 3 a 4, 1af Unawd Alaw. Werin dan 12 oed, 1af Unawd Cerdd Dant dan 12 oed, 2il Canu Emyr dan 12 oed, 1af Unawd Offerynnol dan 12 oed.

CYNGERDD MAWREDDOG

CÔR CWMANN A'R CYLCH

GRAND CONCERT



25.6.2016 7pm

PLANT YSGOL CARREG HIRFAEN, CATRIN AUR, KEES HUYSMANS
CARREG HIRFAEN SCHOOL, CATRIN AUR, KEES HUYSMANS

NEUADD ST IAGO, CWMANN
ST JAMES HALL, CWMANN

Oedolion £5 - Plant am ddim / Adults £5 - Children free

LLYWYDD Y NOS Y BONEDDWR GWILYM PRICE

ELW CYFAN Y NOSON I AMBIWLANS AWYR CYMRU
PROCEED TO THE WALES AIR AMBULANCE

EH

Gwallt gan Caryl

Yn Toriad Taclus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00

Caryl Herrick
carylchwmm@hotmail.co.uk
Salon: 01570 481425
Symudol: 07971629001

Graham Jones

Gwasanethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
 - ★ Ymweliadau Cartref o £45
 - ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferollion Ar Werth
 - ★ Gwasanaeth Adfer Data
 - ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan
- Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com

Dawns Emporium Rhoddion Cymraeg a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX

f dawnsemporium
www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

THE
FALCONDALE
HOTEL & RESTAURANT
GWESTY A BWYTY

Coctels a Canapes 17eg o Fehefin am 7yh

Ffordd dda iawn i ddechrau'r penwythnos....

Am £15 y pen ymunwch â ni am un coctel o'ch dewis o'r fwydlen, efallai Mojito, Cosmopolitan, neu beth am Pina Colada!

Trwy gydol y nos byddwn yn gweini fersiwn bach o "Sgods a Sglods", Byrger, Cig Eidon a marchrudygl a llawer mwy...

Rhaid archebu o flaen llaw

01570 422910

info@thefalcondale.co.uk

www.thefalcondale.co.uk

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chiwysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sdrauca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwyr

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhegob
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi duvets.



MIS y PAPUR Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Jyst mewn pryd y gwnaethon nhw hi. Rhyw ugain mlynedd arall ac efallai y byddai hi wedi bod yn rhy hwyr. Ac, eto, yr un peth ydi'r natur ddynol.

Yn ystod y dyddiau diwetha', mi gafodd festri yn Llanbedr a neuadd ym Mhenrhiwllan eu symud yn ôl 89 o flynyddoedd, i fyd gwahanol iawn i'n byd ni heddiw. Ac, eto, yr un peth ydi'r natur ddynol.

Ro'n i wedi clywed am y ddrama Pobl yr Ymylon ond heb erioed ei gweld. Ro'n i wedi clywed am Idwal Jones, yr athrylith doniol o ardal Clonc, ond heb erioed weld ei waith ar lwyfan.

Ro'n i wedi clywed hefyd pobl yn sôn am Ifan Gruffydd Tregaron, yr actor, ond wedi gorfod bodloni ar ei weld o bell, mewn sgetsus a sioeau comedi ar S4C.

Ond wnes i ddim disgwyl y byddwn i'n mwynhau perfformiad Cwmni Troed-y-Rhiw i'r fath raddau, o gofio'u bod yn atgyfodi drama oedd wedi ei sgrifennu yn 1927. Ond roedd y cyflwyniad – a'r ddrama ei hun – yn rhyfeddol o berthnasol heddiw.

Dau drempyn oedd pobol yr ymylon – un yn hen grwydryn o rôg profiadol, y llall yn bregethwr oedd newydd droi at y ffordd fawr mewn gwrthryfel yn erbyn parchusrwydd ei swydd. A'r hen rôg, Malachi Jones, yn cymryd lle'r llall yn y pulpud mewn pentre' gwledig yng Nghymru ... pentre' ag enw hynod o debyg i rai o enwau pentrefi Ceredigion.

Cynllun ffars ydi rhywbeth fel'na – yr hen dric sy'n mynd yn ôl i ddechreuadau'r ddrama, fod un person yn cael ei gamgymryd am un arall. Ond, yn nrama Idwal Jones, roedd yna ddyfnder i'r camgymryd hefyd.

Yn ogystal â methu â gweld y twyll, roedd blaenoriaid y pentre' gwledig yn camgymryd o ran gwerthoedd a'r cwestiwn yn atseinio ar y diwedd, be ydi parchusrwydd go iawn? A be ydi perfformiad hefyd – roedd yna dair agwedd i Malachi Jones; y sioe o drempyn, yr esgus gweinidog ac, weithiau, y dyn ei hun.

Roedd y perfformiad a'r cast i gyd yn dda, ond roedd

Ifan Tregaron yn orchestol. Drama sy'n troi o amgylch un cymeriad ydi hi ac mae'r cyfan am lwyddo neu fethu ar gamp yr actor hwnnw.

Ar 'lwyfan' cyfyng – llawr y festri a'r neuadd rhwng rhesi'r gynulleidfa – roedd rhaid bod yn dramp credadwy i ddechrau ac wedyn yn bregethwr credadwy, heb anghofio'r tramp oedd o dan y goler gron, ac wedyn, bob hyn a hyn, rhoi cip i ni o'r dyn oedd o dan y perfformio.

Dim ond actor a oedd yn adnabod y tair agwedd yna a allai lwyddo a dim ond cynulleidfa oedd â rhy gof ohonyn nhw a allai werthfawrogi'n llawn pam y byddai blaenoriaid wedi rhoi cymaint o stôr ar bregethwr gyda BA BD wrth ei enw.

Does dim crwydriad fel Malachi i'w cael bellach ac mi fyddai'n go anghysurus arnyn nhw'n trio cysgu ar ben big bêls yn hytrach na thas wair draddodiadol. Ac roedd rhaid credu bod modd i bregethwr landio o America heb i neb wybod amdano ... oes cyn radio a theledu, heb sôn am y We.

Mae yna ddigwyddiadau cyfleus a chyd-ddigwyddiadau, wrth gwrs, ac mae'n debyg fod peth o'r areithiau mwy rhethregol wedi eu torri'n gelfydd o'r cyflwyniad newydd ond i ni, sy'n cofio effaith os nad union amgylchiadau rhagrith ddoe, mae'r ergydion yn dal i frathu.

Petaech chi am wneud fersiwn hollol fodern o Pobl yr Ymylon, mae'n bosib iawn mai pobol PR a marchnata fyddai'r gweinidogion ... mae'r ffordd y maen nhw'n defnyddio iaith yn debyg iawn i'r pregethwyr erstalwm, a geiriau yn cuddio gwirionedd yn hytrach na'i ddatgelu.

Pobol yr ymylon mae'n siwr fyddai'r rhai sy'n gwrthod chwarae'r gêm, yn gwrthod bod yn rhan o'r ras a'r barusrwydd mawr o'u cwmipas. Pobol sy'n gweld y byd mewn ffordd ychydig yn wahanol ac, oherwydd hynny, yn nes at eu lle go iawn.

Roedd Idwal Jones, fel Malachi Jones – ac Ifan Gruffydd – yn nabod y natur ddynol.

Carnifal Cwmann



Cynhaliwyd Carnifal Cwmann ar y 28ain Mai a'r enillwyr oedd: Y Pâr Gorau - Casi ac Ellie Gregson; Meithrin - Esther Llwyd; Derbyn - Deina Evans; Bl 1 a 2 - Megan Lewis; Bl 3 a 4 a'r Pencampwr - Ronnie Evans; Bl 5 a 6 - Sion Harry; Oedolion - Nia Wyn.

Y Frenhines oedd Chloe Lewis, y Morwynion oedd Lilly-May a Gwenllian Llwyd, y Macwyaid oedd Jac Jones a Osian Jones, Brenhines y Rhosod oedd Annie Thomas. Y beirniaid oedd Nerys Douch, Rhodri Beaumont, Tristan a Jennie Nash.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn. Diolch i bawb a fynychodd ac a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd. Bydd adroddiad llawn ar wefan Clonc360.

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

W.D. Lewis
o'r Fab

Melina Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewiscy.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Caccennau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Dantethion i de
* Pwddinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Alec Page
Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.
01570 423955
www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

■ 01570 422206 ■ 01570 423540

A thwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cymeriadau Bro

gan Marian Morgan



Eifion Davies, Afallon

Ganwyd Eifion Davies, neu Eifion Afallon, Drefach fel yr adnabyddir ef erbyn heddi, yn fab i Tom ac Ellen Davies, Awelfa, Llangybi, yr ieuengaf o saith o blant. Fe'i magwyd ar aelwyd gysyrus ei rieni a chafodd blentynod braf yng nghwmni ei frodyr a'i chwiorydd ar y tyddyn 10 cyfer a oedd yn ffinio â chwmins Llangybi. Mynychodd Ysgol Gynradd Gartheli cyn symud ymlaen i Ysgol Uwchradd Tregaron. Tra yno cafodd brofiadau bywyd gwerthfawr a sonia'n dwymgalon am ei athrawon da a fu'n ddylanwad mawr arno; unigolion megis Mari Boden, Cymraeg ac E.O. Griffiths 'Geography', i enwi ond rhai. Er iddo fwynhau y pynciau academiaidd yn fawr, chwaraeon o bob math oedd yn mynd â'i frid yn yr ysgol, yn enwedig Rygbi a thraws gwlad.

Ymlaen wedyn i'r Brifysgol yn Aberystwyth, ac wedi cyfnod byr cafodd ei alw i fynd i'r Gwasanaeth Milwrol, Cenedlaethol. Bu am 10 wythnos o hyfforddiant cychwynnol yng Nghaerwynt, cyn symud am 10 wythnos i Beaconsfield, a buan y cafodd ddoniau arweinyddol Eifion eu hadnabod ac fe'i ddyrchafwyd yn Rhingyll. Hyfforddi a dysgu milwyr i basio eu harholiadau oedd ei brif waith a soniodd fel y cafodd fynd am gyfnod i'r Almaen i wneud gwaith cyflenwi mewn carchar yno. Yn ôl Eifion, roedd y carcharorion yn ffeinach pobl o lawer na'r arweinwyr a edrychai ar eu hôl! Roedd y cyfnod yn yr Almaen yn agoriad llygaid a chai ef a'i gyfoedion eu trin yn dda. Cofia yn dda fel yr oedd eraill yn gweini arno ac fel y byddai'n aml yn derbyn te yn y gwely!

Yn ugain oed mi ddaeth yn gyfnod i Eifion ymadael â'r Gwasanaeth Milwrol ac mi ddaeth nôl i Goleg y Drindod i gwblhau ei ymarfer dysgu. Yn 1959, cafodd ei swydd gyntaf fel athro Cymraeg Ail Iaith yn Ysgol y Bechgyn, Ystrad Mynach a mawr oedd y parch i 'Davies Welsh'. Yn 1963, daeth yn ôl i Geredigion i fod yn athro yn Ysgol Breswyl Y Dolau neu Ysgol Highmead wrth ei henw fwyaf cyfarwydd. Yn y cyfnod hwn, ysgol i blant ag anghenion arbennig o fewn dalyglch yr hen Ddyfed ydoedd. Mi lwyddodd y sefydliad hwn yn ysgubol i drawsnewid bywydau nifer o'n pobl ifanc mwyaf bregus. Fe'u harfogwyd â sgiliau bywyd a sylfeini cadarnach ar gyfer bod yn fwy annibynnol. Y drefn ddyddiol oedd gwersi yn y bore ac yna allan yn y prynhawn yn gwneud gwaith ymarferol – garddio, adeiladu, pysgota ac edrych ar ôl yr anifeiliaid. Sonia Eifion fel yr aeth ambell ddisgybl ymlaen i sefydlu busnes ei hunain sydd yn ffynnu'n llewyrchus o hyd. Cymaint oedd dylanwad Eifion ar y disgyblion yma fel y mae rhai ohonynt dal yn galw heibio i roi tro am Mr Davies o hyd. Wrth roi trem yn nôl ar ei gyfnod fel athro ac yna fel Dirprwy Brifathro yn Ysgol Highmead gall Eifion ond nodio ei ben a dweud 'Ysgwrn dyddie da'.

Yno, yn wir mi wnaeth gwrdd ag Yvonne, mewn parti 21, merch y Prifathro – ei chwrdd ar Sadwrn cyntaf y flwyddyn ac yna ei phriodi ar Sadwrn olaf y flwyddyn. Dilyn ôl traed ei thad wnaeth Yvonne a sefydlu ymhen amser fusnes fel Ciropodydd. Bu Eifion ac Yvonne yn byw'n hapus yn Nolau Gleision, un o dai Stâd Highmead ac yno y ganwyd y ddau blentyn hynaf sef Emyr a

Rhian. Codi tŷ newydd yn Nrefach a symud iddo fu eu hanes yn 1977 ac yna ymhen amser croesawyd eu trydydd plentyn, sef, Bedwyr i'w haelwyd yn Afallon. Mae'r plant wedi dilyn gyrfaedd gwahanol i'w rhieni gydag Emyr yn arbenigo ym maes cyfrifaduron, Rhian ym myd iechyd ac yna Bedwyr ym myd y cyfrifion ac yn gweithio yn yr Adain amaethyddol ym Manc Lloyds. Mae hwy a'u teuluoedd yn ymwelwyr cyson â'r aelwyd yn Afallon a does dim yn rhoi mwy o bleser ar hyd yr amser i Eifion na bod yng nghwmni'r teulu ac yn arbennig yr wyrion, Carys, Katie, Alys a Leighton. Dywed Eifion gyda gwên lydan ar ei wyneb 'mam-gu yw'r fenyw fowr gan yr wyrion ond ma' tad-cu yn 'neud y tro os nad yw mam-gu 'ma'.

Bu i Eifion ymddeol o'i waith fel Dirprwy Brifathro Ysgol Highmead yn niwedd yr wythdegau yn dilyn cyfnod o salwch. Er iddo weld eisiau'r gwmniaeth a difyrrwch y plant yn ddirfawr roedd rhaid dilyn y cyngor meddygol a roddwyd iddo. Wedi iddo ddechrau profi gwell iechyd, nid segur y bu'r gŵr hwn ac mi allodd ail gydio yn ei ddiddordebau mawr sef ffotograffiaeth a garddio. Bu hefyd yn gweithio'n ddyfal dros nifer o achosion da yn ei ardal megis Sefydliad y Galon, lle y bu'n Gadeirydd y pwyllgor

am flynyddoedd maith ac hefyd cynrychiolodd Ddyfed ar bwyllgor Plant Mewn Angen y BBC. Bu hefyd yn nechrau'r nawdegau yn Gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Llambled, neu Bro Pedr hŷn fe yr adwaneir hi erbyn heddiw. Mae capel Brynteg yn parhau yn agos iawn i'w galon ac yntau bellach yn Ddeiacon yno ers blynyddoedd maith. Mae wrth ei fodd hefyd yn ymhél â hanes ac yn aelod selog o Gymdeithas Hanes Llambled a Chymdeithas Hŷn Llanwenog.

Mae Eifion yn y bôn yn dipyn o actor a thynnwyr coes. Cofiwn am ei orchestion yn actio mewn dramâu megis Meini Gwagedd, drama o waith Kitchener Davies a lwyfanwyd gan Gwmni Drama Tŷ'n Gwndwn, heb sôn am ei gyfraniad fel Winston yn nrama Radio Bontlwyd ar Radio Ceredigion. Ond i gynulleidfa Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion cofiwn yn fyw am ei ddawn o adrodd straeon celwydd golau. A dyma ni'n dod at Clonc a chyfraniad amhrisiadwy Eifion i'r papur bro hwn ers y cychwyn. Mi oeddwn i yno yn y cyfarfod cyntaf un, yw chwedl Eifion a dw i'n cofio cyfrannu un o'r lluniau i'r rhifyn cyntaf, sef llun plant yr ardal yn chwarae yn eira mawr '82. A bu Eifion yn Ffotograffydd swyddogol Clonc am flynyddoedd lawer wedi hynny yn ogystal â bod yn gyfrifol am gasglu Clonc o Wasg Aeron a mynd ag ef i'r lleoliad lle plygwyd Clonc. Yn y dyddiau cynnar, roedd plygu Clonc yn digwydd yn Highmead a phlant Ysgol y Dolau wrth eu bodd yn troi eu llaw at gynorthwyo. Diau fod y 'Mars Bar' a dderbynient gan Mr Davies am eu gwaith yn gymhellant gwych iddynt roi o'u gorau! Erbyn nawr Festri Seilo yw'r man plygu gyda Eifion ac Yvonne wrthi'n selog o hyd yn casglu ac yn plygu Clonc gyda chriw ffyddlon o wirfoddolwyr unwaith y mis. Ond i ni ddarllenwyr Clonc cofiwn a diolchwn i Eifion am ei gyfraniad fel Cloncy'n a'i weledigaeth o sefydlu y golofn boblogaidd Siprys. Yn wir, dyn y pethe a'i wreiddiau'n ddwfn mewn hanes, diwylliant a bywyd ei fro.





Ceredigion

Llongyfarchiadau i holl aelodau'r Sir a wnaeth deithio i Farchnad Da Byw Sir Fynwy, Raglan, Gwent i gymryd rhan yn Niwrnod Gwaith Maes C.Ff.I Cymru ar y 23ain o Ebrill. Da iawn i Delyth Jones o glwb Tregaron a gipiodd cwpan Stocmon Hŷn y flwyddyn. Hefyd fe gafodd Carwyn Hawkins, Caryl Morris ac Alaw Mair Jones lwyddiant wrth ddod yn ail yng nghystadleuaeth Rhaglen Radio Byw, ac fe ddaeth Caryl Jones a Rebeca James yn drydydd yn yr Ocsiwn Ffug. Bu aelodau hefyd yn cymryd rhan yn y cystadlaethau Ffensio, Barnu Stoc, Effeithlonrwydd â Diogelwch a Fferm Ffactor iau.

Cynhaliwyd Cinio'r Cadeirydd yng Ngwesty'r Marine ble ddaeth aelodau, arweinyddion a ffrindiau'r C.Ff.I at ei gilydd i ddathlu blynyddoedd llwyddiannus Elgan Evans o glwb Talybont ac Emyr Evans o glwb Felinfach fel cadeiryddion y Sir. Diolch i Llŷr Jones o glwb Pontsian am arwerthu yn yr ocsiwn, gwerthwyd amrywiaeth o nwyddau a dderbyniwyd fel rhoddion gan gwmnïau lleol; ac i DJ Bry am ein diddanu unwaith eto efo disgo ac adloniant. Yn ystod y noson fe gyflwynodd y Frenhines, y Ffarmwr Ifanc a'r morwynion siec i Katie-Ann Briddon ar ran yr Ysgoloriaeth er cof am Miriam Briddon yn yr arian a godwyd o Gymanfa'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc.

Mwynheuodd dros 90 o aelodau'r sir y trip i CCB NFYFC yn Blackpool eleni. Cawsom benwythnos llawn o gymdeithasu efo aelodau o glybiau eraill ar draws Cymru a Lloegr.

Cynhaliwyd Chwaraeon y Sir yng Nghanolfan Hamdden Llambod ar ddydd Sadwrn, 14eg Mai. Cafwyd diwrnod da o gystadlu a'r tywydd o'n plaid. Cystadlodd aelodau'r Sir mewn chwaraeon megis rownderi, pêl-droed, hoci cymysg, pêl-rwyd, 'Frisbee' a rygbi. Bydd canlyniadau'r chwaraeon yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd yr Athletau ar y 29ain o Fehefin.

Canlyniadau y Clwb 200 Mis Mai: 1af - Sian Phillips. Llethr Neuadd, Pencader; 2il - Dennis Davies, Esgerddedwydd, Pontsian; 3ydd - Emyr James, Penyeulan, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth.

Digwyddiadau sydd i ddod: Cystadleuaeth 7 bob ochr, Clwb Rygbi Llambod - 17eg Mehefin; Athletau'r Sir, Ysgol Uwchradd Aberaeron - 29ain Mehefin; Pwyllgorau'r Sir, Felinfach - 13eg Gorffennaf; Splash, Fferm Maesllyn, Tregaron - 29ain-30ain Gorffennaf.

Rali Sir Gâr

Daeth y trafod, nosweithiau hir a'r gwaith caled i ben i glybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr, ar ôl diwrnod arbennig o gystadlu brwd ar Faes y Sioe, Nantyci, Dydd Sadwrn yr 14eg o Fai, 2016.

Yng nghanol y bwrllwm a'r sbri, fe ddaeth cannoedd o bobl i wyllo a chefnogi'r amrywiaeth o gystadleuethau. Y coginio, y canu, y dawnio, roedd rhywbeth ymlaen i bawb.

Ar ôl yr holl gystadlu a'r beirniadu, fe ddaeth yr awr fawr yn y seremoni anrhydeddu Llysgennad a Llysgenhades y Ffermwyr Ifanc. Llysgenhades newydd y Sir yw Ffion Rees, o Glwb Llanfynydd. Hefin Evans o Glwb Capel Iwan yw Llysgennad newydd y sir. Dirprwyon y ddau eleni yw Ffion Gwen Davies, Clwb Llangadog a Carys Thomas, o Glwb Cwmann. Yn ogystal â'r Llysgenhaden, fe anrhydeddwyd Aelod Iau a Hŷn y flwyddyn. Aled Davies, Llangadog fel aelod Iau'r flwyddyn a Hefin Evans, Capel Iwan fel aelod Hŷn y flwyddyn. Anrhydeddwyd Stocmon Iau'r flwyddyn hefyd sef Ifan Williams o Glwb Llangadog a Caryl Howells hefyd o Glwb Llangadog yn ennill Cwpan Coffa Phillip Davies a Gareth Davies am gipio'r teitl Stocmon Hŷn y flwyddyn. Dafydd Evans, San Ishmael aeth â'r wobwr Buwch goffa Aled Howells am Brif Stocmon y flwyddyn.

Cyflwynwyd llu o wobrau i'r aelodau a llongyfarchiadau i bob un ohonynt ar eu llwyddiant a phob lwc i'r aelodau fydd yn cynrychioli Sir Gâr ar lefel Genedlaethol.

Ni fyddai'r diwrnod wedi bod yn bosib heb gydweithrediad staff a phwyllgor y Sioe na chwaith i stiwardiaid C.Ff.I Llangadog am eu gwaith cyn ac ar ddiwrnod y Rali, i C.Ff.I Capel Iwan am stiwardio'r ddawns ac i C.Ff.I Llanfynydd am stiwardio'r nosweithiau Barnu Stoc. Diolch iddynt hwy a diolch hefyd i'r ffermydd wnaeth ddarparu lleoliadau a stoc i gynnal y nosweithiau Barnu Stoc.

Mae'r Mudiad yn ddibynnol iawn ar ewyllys da pobl ac mae hyn yn sicr yn wir am y noddwyr sydd o hyd yn ein cefnogi. Diolch o waelod calon i Fwydydd Castell Howell am fod yn brif noddwr y Rali unwaith eto eleni, ni fyddai'r Rali wedi bod yn bosib heb eich cymorth ariannol.

Diolch i Swyddogion, Llysgenhaden y Sir ac i stiwardiaid y gât ac i bawb arall wnaeth helpu mewn unrhyw fodd. Roedd y Rali'n ddiwrnod llwyddiannus oherwydd eu gwaith caled a chafwyd noson hwylus iawn i ddathlu yn y Ddawns yn Fferm Brynawelon, Llanfynydd gyda diolch i Mr a Mrs Ian Thomas am fodloni i gael y ddawns yno ac am baratoi'r Sied.

Cymanfa Ganu

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ym Methel, Cwm Pedol ar y 15fed o Fai am 4.00 o'r gloch. Yr arweinydd oedd Delyth Morgans Phillips, Llanbedr Pont Steffan, ac Elliw Dafydd, Bethel, Silian oedd Llywydd yr oedfa. Cyflawnodd y ddwy ohonynt eu gwaith yn rhagorol. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Eirian Morgan a Rhys Davies, Bethel, Cwm Pedol, a chafwyd te hyfryd yn y Ffestri i ddilyn yr oedfa. Diolch arbennig i aelodau Côr Meibion Cwmann a Chôr Corisma, am eu cefnogaeth - 'roedd eu cyfraniad yn gymorth mawr i lwyddiant y Gymanfa. Diolch hefyd i Janet Evans, Ysgrifennydd y Gymanfa am ei gwaith yn trefnu'r digwyddiad, ac am baratoi plant yr Ysgol Sul ar gyfer y diwrnod. Ac i'r gwragedd, yn aelodau a chyfeillion, am baratoi lluniaeth ar gyfer pawb. Diolch i bawb am eu cyfraniad tuag at lwyddiant Cymanfa 2016.

Cystic Fibrosis

Ar yr 22ain o Fai, cynhaliwyd Velothon Cymru, ras 140 km yn cychwyn yng Nghaerdydd, yna trwy Gasnewydd, Bannau Brycheiniog, Pont-y-pwl, Trecelyn, Caerffili, ac yna dychwelyd i Gaerdydd. 'Roedd tua 12,000 o seiclwyr yn cymeryd rhan, ac yn eu plith, criw o NFU Cymru a chwmni Yswiriant NFU Mutual. Llongyfarchiadau i Rhys Davies, Ffarmers, John Mercer, Cwrtycadno, Dan Downes, Pumsaint a Gerwyn Davies, Felingwm ar gwblhau'r daith, a thrwy hynny, godi arian i elusen 'The Cystic Fibrosis Trust'. Llongyfarchiadau iddynt hwy, a phawb a gymerodd ran yn y sialens arbennig yma.

Marchnad Ffarmers

Cofiwch fod Marchnad Ffarmers yn cael ei chynnal ar y Sadwrn cyntaf o'r mis rhwng 10.00 ac 1.00 o'r gloch. Mae yna amrywiaeth o stondinau yn gwerthu bara a chacenau; jam, mêl a siytni; llysiau a ffrwythau &c. Cynhelir y farchnad nesaf ar ddydd Sadwrn, y 4ydd o Fehefin, ac wedyn ar yr 2ail o Orffennaf. Mae yna hefyd gyfle am baned a sgwrs - galwch mewn!

Bethel Cwm Pedol

Yn dilyn llwyddiant ein hoedfa 'Croeso Ynghyd' ym mis Awst 2015, mae oedfa debyg wedi ei threfnu ar gyfer dydd Sul, yr 21ain o Awst 2016 am 2.00 o'r gloch ym Methel, Cwm Pedol. Bydd hon yn oedfa gymun, a phregethir gan Y Parchedig Huw George, Llandisilio. Estynnir croeso i aelodau a chyfeillion eglwysy'r ardal, ac unrhyw un arall sy'n dymuno, i ymuno a ni yn y gwasanaeth, ac i ddilyn ar Barc Bro Fana am farbiciw. 'Croeso Ynghyd!'

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ **01239 613746**

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Llanybydder



Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus iawn yn Ffestri Aberduar yn ddiweddar, yr elw tuag at Bwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder. Diolch i athrawon a phlant Ysgol Llanybydder ynghyd â Chôr Lleisiau'r Werin am adloniant hyfryd iawn. Yn y llun gwelir swyddogion ac aelodau'r pwyllgor ynghyd â Pam Burke a wnaeth agor y noson. Diolch i bawb a gyfranodd at lwyddiant y noson.

Llwyddiant Ysgubol



Llongyfarchiadau i Steffan Griffiths, Pant-y-dderewen am ennill Chwaraewr gorau'r tymor yn ôl ei hyfforddwr. Mae Steffan yn gôl geidwad i dîm dan 12 Aberystwyth ac nid yw'r tîm wedi colli gêm drwy'r tymor. Daethant hefyd yn fuddugol yng Nghynghrair De Cymru dan 12.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Elwyn Williams, Brynglas. Cofiw'n am Gwyneth a Glesni a'u teuluoedd yn eu colled.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Pugh a Rhiannon Jones, Gorlan ar enedigaeth wyres fach, merch fach i Cerys a Gareth yn Nhalgarreg. Hefyd i Ieuan a Thelma Jones, Tegfryn ar ddyfodiad gor-wyres fach arall. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu oll.

Diolch

Dymuna Gwyneth, Glesni a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn marwolaeth eu tad Elwyn Williams.

Diolch hefyd i bawb am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at Ymchwil Athritis. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

Dymuna teulu'r diweddar Graham Wilson, 6 Heol y Gaer ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch yn fawr iawn hefyd am y rhoddion tuag at Ymchwil Cancr.


Diolch

Dymuna Ieuan Jones, Tegfryn ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed yn ystod mis Ebrill boed yn gardiau, galwadau ffôn, arian a rhoddion. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.



Mr Aerwyn Evans, 2 Heol-y-Gaer yn derbyn rhodd gan y Cynghorydd Ieuan Davies am ei waith di-flino fel gofalwr cymunedol i Gyngor Cymuned Llanybydder dros y 16 mlynedd diwethaf a chadw'r cyfan yn daclus bob amser. Diolch yn fawr iawn Aerwyn.

Llwyddiant Rygbi



Chwaraeodd Steffan Wilson, Llanybydder ei gap cyntaf i'r Fyddin Brydeinig ar y 30ain Ebrill yn erbyn Rhydychen yn Twickenham. Llongyfarchiadau iddo am sgorio'r cyntaf o bedwar cais. Edrychwn ymlaen at glywed hanes ei daith gyda'r garfan yn Seland Newydd yn ystod mis Mai.

Carnifal

Mi fydd y carnifal ar 25ain o Fehefin, gorymdaith i ddechrau am 12.30yp o faes parcio'r Llew Du. Noson y carnifal yn y Llew Du - disco i'r plant am 6.00yh gyda disgo a canwr Carys Mai Jones i'r oedolion o 8.00yh nes hwyr.

Wythnos carnifal: 19fed o Mehefin - 24ain o Mehefin; Dydd Sul - Gymanfa ganu yng nghapel Aberduar am 6.30yh; Dydd Llun - Helfa trysor car, £5 y car, i ddechrau o Glwb rygbi am 6.00yh; Dydd Mawrth - Bingo yng nghlwb rygbi am 8.00yh; Dydd Mercher - Helfa trysor cerdded - Dechrau o Tan y Graig am 6.30yh; Dydd Gwener - Cwis yn y Llew Du.

Cyngor Cymuned Llanybydder

Cyfarfod mis Ebrill 2016

Ysgrifennwyd at yr awdurdodau a'r heddlu yn Llangynnwr i ddweud bod deiseb wedi i'w greu gan bobl Rhydybont. Mae moduron yn gyrru lawer rhy gloi ar heol B4337.

Mae'r cyngor cymuned yn mynd i gysylltu â'r adran rheoli asedau ynglyn â thoiledau ger y Clwb Rygbi.

Rhoddwyd £250.00 tuag at Bwyllgor Buddiannau Llanybydder.

Hoffai'r cyngor cymuned rhoi diolch mawr i Mr Aerwyn Evans, Heol-y-Gaer am ei wasanaeth tu hwnt yn ystod y blynyddoedd. Pob dymuniad gorau iddo ar ei ymdeoliad.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Ras Hwyl Cwrtnewydd

Ar Wyl banc cyntaf mis Mai, cynhaliwyd ras flynyddol Cwrtnewydd gyda bron hanner cant o oedolion yn rhedeg y ras 4 milltir sy'n dechrau a gorffen yn yr ysgol sy'n golygu bod dringfa serth o hanner milltir gyda'r rhedwyr ar ddiwedd y ras i gyrraedd yr ysgol!



Canlyniadau'r ras: Dynion agored: 1af- Sion Price, Sarn Helen 22.20 (enillydd y ras); 2il- Rob Johnson, Aberystwyth AC 23:11; 3ydd- Sion Lewis, Harriers Caerfyrddin 24:40. Dynion dros 40: 1af- Glyn Price, Sarn Helen 25.05; 2il- Nigel Davies, Sarn Helen 26.57; 3ydd Mike Davies, Sarn Helen 27.24. Dynion dros 50: 1af- Richard Marks, Sarn Helen 27.13; 2il- Tony Hall, Sarn Helen 28.04; 3ydd Hywel Jones, 28.30. Merched Agored: 1af- Catrin Lewis, 28.57 (enillydd y ras); 2il- Dee Jolly, Sarn Helen 29.32; 3ydd- Menna Williams, Sarn Helen 38.18. Merched dros 35: 1af- Eleri Rivers, Sarn Helen 30:17; 2il- Sian Roberts-Jones, Sarn Helen 30:45; 3ydd- Heather Hughes, Sarn Helen 35:02. Merched dros 45: 1af- Helen Willoughby, Sarn Helen 30:09; 2il- Dawn Kenwright, Sarn Helen 30:55; 3ydd- Delyth Crimes, Sarn Helen 36:58.

Canlyniadau eraill aelodau Sarn Helen: Simon Hall 25:15, Carwyn Davies 25:53, Murray Kisbee 29:23, Thomas Willoughby 30:13, Joseff Thomas 30:30, Paul Edwards 30:38, Mitchell Readwin 33:18, Carwyn Davies 33:35, Dorian Rees 35:03, Eric Rees 35:38, Jenny Caulkett 36:12, Gareth Jones 39:44, Meinir Davies 41:25 Emma Davies 45:18, Emma Gray 45:53.

Ras fynydd Sarn Helen

Roedd yr awyr yn glir a'r tywydd yn ffafriol iawn ar gyfer Ras fynydd Sarn Helen eleni ar Fai 15fed. Dyma ras eiconic i Lamed sydd yn dechrau a gorffen yn y clwb rygbi gan fynd ar hyd hen lwybrau rhufeinig Sarn Helen ac yn cynnwys 3 dringfa serth yn ystod y cwrs 16 milltir. Roedd 48 o redwyr dewr yn barod am yr her a Slavov Gancho, Aberystwyth AC yn dechrau'r ras yn gryf ac yn arwain y ffordd hyd at y llinell derfyn gan orffen mewn 1.54 ac ef hefyd oedd enillydd categori y dynion dros 40. Roedd hi'n frwydr agos iawn ar gyfer yr 2il a'r 3ydd yng nghategori y dynion 40 rhwng aelodau Sarn Helen gydag eiliad yn unig yn gwahanu'r ddau, ond Daniel Hooper aeth a'r 2il safle mewn 2.02.31 a Glyn Price yn 3ydd mewn 2.02.32. Enillydd categori y dynion agored oedd Ken Caulkett, Sarn Helen a oedd hefyd yn 2il yn y ras mewn 1.54.40 gydag aelod arall o'r clwb, Simon Hall yn gorffen yn 3ydd yn y ras ac yn 2il i ddynion agored mewn 1.58.41. Dave Powell, Aberystwyth AC oedd yn fuddugol yng nghategori y dynion 50 mewn 2.08.14 gyda Rob Falconer, Harriers Abertawe yn 2il mewn 2.13.44 a Tony Hall, Sarn Helen yn 3ydd mewn 2.16.10.

Claire Cleathero, TROTs o gategori'r merched 35 oedd enillydd ras y merched eleni gydag amser o 2.15.35, a dyma oedd y tro cyntaf iddi redeg y ras hon. Roedd yr ail ferch dros y llinell derfyn mewn 2.23.15, hithe hefyd o gategori merched 35 sef Louise Barker, sydd wedi rhedeg y ras hon droeon. Llinos Jones, Amman Valley Harriers oedd yn 3ydd i ferched dros 35 mewn 2.27.43. Dee Jolly oedd y 3ydd ferch i groesi'r llinell derfyn ac yn ennill categori y merched agored yn ei amser gorau o 2.24.51. Yn 2il yn yr un categori oedd Tasmin Leighton, Aberystwyth AC mewn 2.27.26 gyda'r 3ydd yn mynd i Jana Weidemann, Myddfai Milers mewn 2.58.41. Enillydd categori y merched dros 45 oedd Kate O'Sullivan, Aberystwyth AC mewn 2.39.45, 2il yn mynd i Wendy Tromans, Rhedwyr Emlyn mewn 2.51.20 a'e 3ydd hefyd i Rhedwyr Emlyn, Heulwen James mewn 2.54.06. Cafwyd perfformiadau arbennig o aelodau eraill Sarn Helen gyda'r canlyniadau fel a ganlyn: Andrew Davis 2.10.09, Steven Holmes 2.10.51, Kevin Hughes 2.12.59, Murray Kisbee 2.18.00, Calvin Williams 2.22.13, Mick Taylor 2.24.59, Carwyn Thomas 2.26.08, Richard Marks 2.26.55, Eleri Rivers

2.28.17, Terry Jones 2.35.30, Huw Price 2.35.37, Sian Roberts-Jones 2.36.03, Aneurin James 2.36.37, Heather Hughes 2.57.22, Eric a Carol Rees 3.29.12 a Nicola Higgs 3.29.20.

Cynhaliwyd y ras gyfnewid unwaith eto eleni gyda 4 tîm yn cystadlu. Pob tîm yn cynnwys 3 rhedwr sy'n gorfod rhedeg tua 5.5 milltir yr un. Enillwyr y ras gyfnewid eleni oedd Steven Holmes, Thomas Willoughby a Paul Edwards gydag amser o 2.10.49.

Canlyniadau eraill

Ebrill 30ain :- Hanner marathon, Ras y Barcud, Pontarfynach:-

Derbyniodd y clwb nifer o wobrau gyda Gareth Payne yn gorffen yn 2il ac yn 1af i ddynion 40 mewn 1.35.21 gyda Sion Price yn 3ydd yn y ras ond yn gyntaf i ddynion agored mewn 1.39.11. Glyn Price enillodd y categori dynion 45 mewn 1.43.28 a Tony Hall yn ennill categori dynion 60 mewn 1.59.14. Gorffennodd Calvin Williams mewn 2.03.59 ac Aneurin James mewn 2.15.25. Yn ras y merched, roedd Eleri Rivers yn 3ydd yng nghategori merched 40 mewn 2.12 a Dawn Kenwright yn 2il yn y merched 60 mewn 2.19.09. Enillodd Caitlin Page y ras dan 20 gyda'i chwaer Grace yn 8fed i ferched dan 15.

Dydd Sadwrn, Mai 7ed:- Tair ras ar fynyddoedd y preseli sef y bwystfil bach 11 milltir, Bwystfil y preseli yn 24 milltir a'r bwystfil mawr yn 32 milltir gyda 5 aelod o'r clwb yn barod i herio'r bwystfil.



Yn ras y Bwystfil bach, nid yn unig fe enillodd Gareth Payne mewn amser arbennig o 1.18.01 ond fe dorrodd record y cwrs a hynny llai nag wythnos ar ôl torri record ras Crannog! Yn 3ydd yn yr un ras oedd Simon Hall mewn 1:26:15 ac Andrew Davis yn 5ed dynion 40 mewn 1.34.06. Cafodd Dee Jolly ras arbennig gan orffen yn 5ed merch ac 2il merch agored mewn 1:44:50. Rhedodd Helen Willoughby y Bwystfil mawr a oedd yn cynnwys 5,800 troedfedd o ddringo ac fe orffennodd yn 2il merched 45 mewn 7 awr 25 munud. Ar yr un diwrnod, fe wnaeth Nigel Davies gymeryd rhan mewn Ultra marathon ar fynyddoedd y Malvern, dyma'r 3ydd ultra marathon iddo y flwyddyn hon! Roedd hon yn 52 milltir ar hyd lwybrau heriol ac yn cynnwys cyfanswm o 6,500 troedfedd o ddringo. Fe ddechreuodd Nigel yn dda gan gyrraedd hanner ffordd mewn 4 awr 27 munud ac yn y 9fed safle, ond wrth i'r diwrnod fynd rhagddi fe gododd y tymheredd i 23*c ac fe aeth Nigel i deimlo'n sâl ac i wneud pethau'n waeth, rhyw filltir o'r diwedd fe gymrodd y llwybr anghywir ac roedd wedi rhedeg dwy filltir cyn iddo sylweddoli ei ganggymeriad ond fe orffennodd mewn 11 awr 11 munud yn y 17eg safle.

Dydd Sul, Mai 8fed:- Campau Caron, Tregaron John McDonagh 3ydd mewn 67:17 yn cynnwys nofio 400m, beicio 15 milltir a rhedeg 5k a David Thomas yn gorffen yn 6ed mewn 74:10. Ras Hwyl 4.7 milltir, sioe Trap, Llandeilo; Ken Caulkett 3ydd mewn 27:23, gyda Glyn Price yn ennill categori y dynion dros 45 mewn 28:52, a'i frawd Huw Price yn 4ydd Dynion 50 mewn 34:01.

"Race for life, Aberystwyth, Mai 15fed":- Llongyfarchiadau i Helen Willoughby a enillodd ras y merched ac i aelodau eraill y clwb a gymerodd rhan.





Canlyniadau'r plant

Ras Hwyl Cwrtnewydd – Ras Cynradd:- Rhys Williams, Sarn Helen yn fuddugol mewn 6.15 gyda'i gefnder Daniel Morgans yn 2il mewn 6.28 a Rhodri Gregson, Sarn Helen yn 3ydd mewn 6.32. Alaw Jones enillodd ras y merched mewn 6.30 gyda Gwenllian Llwyd, Sarn Helen yn 2il mewn 6.58 a Lisa Jenkins, Sarn Helen yn 3ydd mewn 7.10. Canlyniadau eraill aelodau cynradd Sarn Helen :- Rhys Tom Williams 6:40, Nia Williams 7:22, Hari Rivers 7:24, Beca Jones 7:28, Sean Wood 7:32, Owen Davies 7:35, Alex Bonning 8:23, Violet Caulkett 8:23, Maddie Caulkett 8:24, Llyr Rees 9:14, Elin Evans 10:51.

Ras dan 16 :- Yn fuddugol eleni, ar ôl bod yn 3ydd am y ddwy flynedd diwethaf oedd Tomos Morgans mewn 12:56. Jack Caulkett, Sarn Helen oedd yn 2il mewn 13:58 ac Arwel Williams yn 3ydd mewn 15:43. Lois Jones orffenodd yn 1af i'r merched mewn 16:01, Isabella Caulkett, Sarn Helen yn 2il mewn 17:09 a Beca Jenkins, Sarn Helen yn 3ydd mewn 17:40.

Ras Trap, Llandeilo – ras hir o 2.8 milltir gyda sawl un o aelodau'r clwb yn cymeryd rhan. Yn y dosbarth lleiaf, gorffennodd Jac Rees mewn 30.04. Bl 5&6 merched – Violet Caulkett yn 4ydd mewn 30.12. Bl 5&6 bechgyn- Rhys Williams yn ennill mewn 18.47 gyda Rhodri Gregson yn dangos ei ddewrder i orffen yn gryf mewn 22.57 ar ôl ei gwmp ar ddechrau'r ras. Bl 7&8 bechgyn – Jack Caulkett 22.38. Bl 9-11 merched- Isabella Caulkett yn 4ydd mewn 30.12.



Ras Sarn Helen – y ras cynradd ac uwchradd yn 1.7 milltir ac yn bennaf ar hyd lwybrau coedwig a chaeau. Yn y ras uwchradd, yr enillydd oedd Tomos Morgans, y Preseli mewn amser arbennig o 11.58, gyda Gwion Payne, Sarn Helen yn 2il mewn 12.20 a Daniel Willoughby, Sarn Helen yn 3ydd mewn 13.02. Sioned Wallwork, Caerdydd AC aeth a hi i'r merched mewn 13.22, yr ail i Grace Page, Sarn Helen mewn 14.41 a 3ydd i Isabella Caulkett, Sarn Helen mewn 16.14. Yn y ras cynradd Daniel Morgans oedd yn fuddugol mewn 12.29, gyda Liam Regan yn 2il mewn 12.59 a Rhodri Gregson, Sarn Helen yn 3ydd mewn 13.21.

Alaw Jones o Cwrtnewydd enillodd ras y merched ar ôl rhedeg ras anhygoel a gorffen mewn 12.40, gyda Gwenllian Llwyd, Sarn Helen yn 2il mewn 14.50 a Caryl Haf Lloyd, Harriers Caerfyrddin yn 3ydd mewn 14.53. Canlyniadau eraill aelodau'r clwb:- Jack Caulkett 13.02, Joseff Thomas 13.18, Rhys-Tom Williams 13.42, Dafydd Lloyd 13.44, Jamie Jones 14.01, Harry Rivers 14.50, Leah Regan 15.25, Beca Jones 16.12, Sean Wood 16.15, Owen Davies 16.57, Violet Caulkett 17.08, Nia Williams 17.58, Gwen Thomas 18.12, Llyr Rees 18.16, Maddie Caulkett 23.11.

Clwb beicio Sarn Helen

Bynea Time Trial, Ebrill 17eg :- 30 milltir ar hyd yr A40 o Fanordeilo i Abergwili a nôl. Carwyn Davies yn gorffen mewn 1 awr 19 munud, gyda'i wncwl Dorian Rees yn gorffen mewn 1 awr 24 munud a David Thomas mewn 1 awr 28 munud.

"Taith Sir Benfro", Ebrill 24ain:- Carwyn, Dorian a David yn dewis y cwrs hiraf o 100 milltir a dros 10300 troedfedd o ddringo. Carwyn Davies ar y blaen unwaith eto mewn 6 awr 52 munud a Dorian Rees munud y tu ôl iddo mewn 6 awr 53 munud, gyda David Thomas yn gorffen mewn 7 awr 39.

"Dyfi Enduro", Mai 1af :- 30 milltir ar hyd llwybrau'r goedwig gyda 1000 o feicwyr yn ymgeisio ar 1900 troedfedd o ddringfa gyda Gareth Payne yn eu canol y diwrnod wedi iddo redeg hanner marathon y barcud coch. Ar ôl iddo brofi anhawster gyda'i feic ar gychwyn y ras ac yntau yn y 10 uchaf fe gwmpodd i'r 60 safle ond dangosodd ei gryfder gan lwyddo i orffen yn y 13eg safle mewn 2 awr 48 munud.



Bydd Gŵyl Wib yn dod i Theatr Felinfach ar benwythnos olaf mis Mehefin. Gŵyl unigryw i ddathlu ieithoedd a diwylliant saith o wledydd Celtaidd ac Ewropeaidd yw TOSTA; Gwlad y Basg, Galisia, Yr Alban, Iwerddon, Ffryslân, Cernyw a Chymru.

Bydd arddangosfa o waith saith o artistiaid o'r saith gwlad yn rhan o'r ŵyl deithiol, yn cynnwys gwaith Luned Rhys Parri o Gymru.

Nos Wener, bydd cyfle i fwynhau cerddoriaeth fyw yng nghwmni band enwog o wlad y Basg, Oreka TX ac artistiaid lleol, megis Raffdam.

Dydd Sadwrn, bydd mwy o gerddoriaeth byw a chyfle i gymryd rhan mewn gweithdai celf. Y Lein-Yp cerddorol yw: Cardi-gan, Argyfwng Canol Oed, Plu, Twm Morys a Tosta Band neu Tonnau Tosta sef band o gerddorion o'r 7 gwlad, yn cynnwys Gwilym Bowen Rhys (Y Bandana, Plu).

Yn Hwyl a Hamdden ar brynhawn Dydd Mercher olaf mis Ebrill cafwyd y pleser o gwmni Mr John Jones Brechfa, sy'n rhedeg tafarn 'Y Talardd' yn Llanllwni ers dros 5 mlynedd gyda'i wraig Ann. Diddorol iawn oedd gwrandio arno'n adrodd ei hanes a chafwyd ambell stori ddoniol yn ogystal.

Ar ddechrau mis Mai daeth y criw at ei gilydd i wrando ar Mr Wynne Melville Jones yn adrodd hanes ei yrfa gyda'r Urdd a sut daeth 'gonc' Mr Urdd i fodolaeth. Roedd hi'n wledd i gael gweld yr amrywiol luniau y mae wedi eu paentio a chael yr hanes diddorol sydd tu ôl i bob un ohonynt.

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol flynyddol Hwyl a Hamdden ar brynhawn Ddydd Mercher, 18 Mai. Y beirniaid eleni oedd Lynford a Jennifer Thomas, Talfryn, Felinfach. Enillydd y gadair oedd Mrs. Mari Morgan, Llanrhystud.

Beth Sy' 'Mlan? 24,25,26/6/16 – Gŵyl TOSTA; 28-30/6/16 – Nansi - Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru yn Neuadd Goffa Aberaeron; 30/6/16 a 1/7/16 Diwrnod Hyfryd Sali Mali – Cwmni Theatr Arad Goch; 5/7/16- Sioe Ysgol Ardall Gymunedol Y Dderi yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeugain oed. Perfformiad pawen am 2:00yp Perfformiad Hwyr am 6:00yh.

Clwb Clonc

Mae'n amser ymaelodi â Chlwb Clonc. Dim ond £5 y flwyddyn a chyfle i ennill gwobrau da ym mhob rhifyn. Diolch am eich cefnogaeth.



CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB cyn **diwedd mis Mehefin**.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:



ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code:-.....-.....

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay Nat West, Llambed 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2016 1st July 2016

Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybydd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELF CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbenig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ysgol Bro Pedr



Sector Iau

Bu'r Canon Andy a'r Parchedig
Patron Bell yn cynnal gwasanaethau
yn yr ysgol a diolch iddynt am eu
cyflwyniadau diddorol a phwrpasol.
Trafodwyd yn bennaf y gwaith a
wneir gan Gymorth Cristnogol a
chafwyd cyfle i drafod amodau byw
pobl yn y trydydd byd a sut y gallwn
ni eu helpu.

Bydd nifer o ddisgyblion y
cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol
yr Urdd yn Fflint dros wyliau'r
hanner tymor a dymunwn yn dda
iddynt sef Cerys Angharad Jones,
Austin Thomas, Dawnsyr Disgo
a'r grŵp llefaru i ddysgwyr a diolch
i bawb a fu'n hyfforddi ac yn
cynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Yn Nhrawsgwlad Cenedlaethol yr
Urdd gwnaeth nifer o ddisgyblion yr
ysgol yn arbennig o dda a da iawn i
bawb a fu wrthi'n cystadlu. Cipiodd
tîm merched blwyddyn pump y
trydydd safle dros Gymru – arbennig
Evie, Jess a Jasmine. Daliwch ati i
fwynhau rhedeg.

Cafodd yr uned dan bump nifer o
ymwelwyr yn ystod yr wythnosau
diwethaf. Daeth y Frigad Dân a'r
heddlu i'r ysgol a'r plant yn cael
cyfle i eistedd yn yr injan dân ac i
wisgo'r amryw wisgoedd yn ogystal
â chael cyfle i wrando ar sut maent
yn helpu pobl. Buont hefyd draw yn
yr orsaf ambiwlans yn cael dysgu
am y gwaith sydd yn mynd ymlaen
yno ac am yr offer a ddefnyddir
ganddynt. Diolch i'r Frigad Dân,
yr heddlu a'r dynion ambiwlans
am roi o'u hamser prin – rydym yn
gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Bu'n dewiniaid digidol yn brysur
iawn dan arweiniad Mr Roderick a
Mr Jones yn rhedeg clybiau ac yn
gwneud cyflwyniad mewn cyfarfod
i Benaethiaid y Sir. Da iawn chi am
eich holl waith a'ch hymroddiad.
Yn ystod yr wythnos diwethaf
cafodd disgyblion blwyddyn 6
gyflwyniadau diddorol a phwrpasol
am hiliaeth – "Show racism the red
card." Mae holl ddisgyblion yr ysgol
yn brysur yn ymarfer ar gyfer ein
mabolgampau blynyddol a gynhelir
ar ddechrau mis Mehefin.

Sector Hŷn

Canlyniadau Celf a Chrefft yr
Urdd: Pypedau (Gwaith Grŵp)
Bl.2 ac iau -Lowri & Hanna 1af,
Gwaith Tecstilau 3D Creadigol
Bl.2 ac iau - Fflur Meredith 3ydd,
Gwehyddu Bl.2 ac iau - Fflur
Meredith 1af, Gwehyddu Bl.5 a
6 - Ifan Meredith 1af, Cyfres o
Brintiau Monocrom Bl.2 ac iau
- Lowri Meles James Evans 1af,
Cyfres o Brintiau Lliw Bl.2 ac
iau - Lowri Meles James Evans
1af, Gemwaith Bl.2 ac iau - Fflur
Meredith 2il, Gemwaith Bl.5 a 6 -
Ifan Meredith 3ydd, Creu Artefact
Bl.5 a 6 (Unigol) - Ifan Meredith
2il, Dylunio a Thechnoleg Bl.2 ac



Llongyfarchiadau mawr i Daniel Farr, Austin Thomas, Lucca Assaf ac
Annabel Hunt ar gipio'r wobwr gyntaf am waith llafar ail-iaith yn Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd – tipyn o gamp a diolch i'r staff yn yr ysgol a'r tîm
athrawon cefnogi'r Gymraeg am eu harweiniad ac am ddarparu cyfleoedd
iddynt.



Tîm merched blwyddyn 5 Ysgol Bro Pedr yn cipio'r fedal efydd yn Ras
Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i Jess, Evie a
Jasmine ar eu llwyddiant.



Daeth llwyddiant ysgubol i Ifan Meredith a gipiodd ddwy wobwr gyntaf
yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am waith gwehyddu bl 5 a 6 a gwaith
Dylunio a Thechnoleg unigol bl 5 a 6 ac i Fflur Meredith am dderbyn yr
ail wobwr am waith Dylunio a Thechnoleg bl 2 ac iau hefyd ar lefel Cymru.
Llongyfarchiadau mawr i'r ddau. Bydd eu gwaith yn cael eu harddangos yn y
Babell Gelf a Chrefft yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Fflint.

iau - Fflur Meredith 1af, Dylunio
a Thechnoleg Bl.5 a 6 - Ifan
Meredith 1af, Creu Artefact Bl.12
a dan 19 oed - Alwyn Evans 1af,
Gwaith Grŵp A.A Creadigol 3D
dan 25 oed (C) - Grŵp Ysgol
Bro Pedr - 2il, Gwaith Grŵp
A.A Creadigol 2D dan 25 oed
(D) - Grŵp Ysgol Bro Pedr - 2il,

CAD/CAM Bl.12 a dan 19 oed
- Sara Thomas 1af. Canlyniadau
Eisteddfod yr Urdd: Barddoniaeth
dan 19 oed - Nest Jenkins 1af
& 2il, Meirion Thomas 3ydd,
Barddoniaeth bl.8 - Beca Jones 1af,
CogUrdd - Gwennan Lewis 3ydd,
Cyfansoddi Cerddoriaeth bl.12 a
13 - Hannah James 3ydd.

Ysgol Bro Pedr

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont



Creu Arteffact Bl.12 a dan 19 oed
- Alwyn Evans 1af




Barddoniaeth bl.8 - Beca Jones 1af



CAD/CAM Bl.12 a dan 19 oed
- Sara Thomas 1af



Barddoniaeth dan 19 oed - Nest
Jenkins 1af & 2il



CogUrdd - Gwennan Lewis 3ydd



Cyfansoddi Cerddoriaeth bl.12 a
13 - Hannah James 3ydd



Longyfarchiadau mawr i Joe Shail, Jenny Carter ac Aleksander Odell ar
lwyddo i gwblhau eu cwrs Uned Academiaidd mewn Daaryddiaeth gyda
Phrifysgol Aberystwyth. Rhoddodd Isobel Foss, Nikita Petry ac Edward
Furlong ymgais arni hefyd. Da iawn chi!



Barddoniaeth dan 19 oed - Meirion
Thomas 3ydd

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphoto restoring.com



Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

LYN JONES
"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Cancer Research UK
Llanybydder a'r Ardal

Barbeciwr

Yn y Llew Du Llanybydder

11 Mehefin 2016 am 12 o'r gloch

Stondinau, Raffl
Adloniant: Lleisiau'r Werin a Phlant
Ysgol Llanybydder

Llywydd: Mrs Angharad Jones,
Llanybydder

Mynediad trwy rodd

Rhif elusen: 1089464

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llanbedr Pont Steffan



Dr Brinley Jones, Llywydd Coleg y Brif Ysgol Llamed a chyn Lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn traddodi darlith a chyflwyniad ar ei gyfrol newydd - *Rhamant Rhydychen* - sy'n olrain hanes rhai o'r Cymry a fu'n astudio ym Mhrifysgol Rhydychen dros y canrifoedd. Yn ôl yr Athro Derec Llwyd Morgan 'Teyrnged hanesyddol i Brifysgol Rhydychen yw'r gyfrol - y llinyn aur sy'n rhedeg drwyddi yw'r cyfraniad a wnaeth Rhydychen i fywydau a gyrfaeodd canoedd o Gymry a addysgwyd yno ac a ddychwelodd - llawer ohonynt, fel Dr Brinley ei hun, i wasanaethu eu mamwlad'.

Brondeifi, Llanbed

Dydd Sul, Mai 1af, derbyniwyd Gwyn Williams, Esgergoch, Ffarmers yn aelod ym Mrondeifi a chyflwynodd sicc am fil o bunnoedd er cof am June, ei ddiweddar briod, a fu farw ar Fore Nadolig 2015. Bu June yn aelod teyrngar yn y Capel ac Urdd y Benywod ar waethaf ei salwch hir.

Parch. Cen Llwyd fu'n cymeryd y gwasanaeth ar Fai 8fed a chafwyd ganddo bregeth i'w chofio. Bore Sul, Mai 15fed, daeth nifer o aelodau hyn ac iau y Capel ynghyd i drwsio'r llwybrau a beddau rhai o'r cyndeidiau a gododd y capel ac i'n hatgoffa o'r ddyled sydd iddynt am hynny. Ar ôl lluniaeth a baratowyd gan Margaret Jones, Glanhelen awd ati i drafod dyfodol yr Achos a'r ychydig weddill o waith sydd i'w gwblhau. Daeth tyrfa dda ynghyd ar Sul, Mai 22ain i groesawu Clive Evans, Brynmaen, Cwmann nôl i Frondeifi ac yntau'n cymryd at y gwasanaeth. Mae Clive erbyn hyn yn byw yn Norwich ac yn swyddog yn y Capel Undodaidd yno. 'Roedd thema'r gwasanaeth ar broblemau'r trydydd byd a'r ffoaduriaid. Atgoffodd y gynulleidfa mai brodyr a chwiorydd yw pawb i'w gilydd ac y dylid ymateb ymhob ffordd i'w helpu. Cynorthwywyd Clive yn y gwasanaeth gan Dr. Sian Lloyd a Rhian Williams gyda Tanya Morgans wrth yr organ. Parchedig Wyn Thomas, Pontsian fu'n cymryd y gwasaneth ar Sul, Mai 29ain. Hyfryd oedd ei weld, ar ôl salwch hir wedi ailgydio yn y gwaith.

Yn dilyn ymddeoliad y Parch. Goronwy Evans ar ôl gweinidogaethu ym Mrondeifi am 50 mlynedd, da yw deall bod yna olynnydd iddo. Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Parch. Alun Wyn Dafis i ddweud ei fod yn derbyn y

gwahoddiad i ddod yn weinidog ar Frondeifi. Bydd yn dechrau ar ei weinidogaeth ar 5ed o Fehefin am 10 o'r gloch. Bydd y Cyfarfod Sefydlu ar Sul, Hydref 9fed.

Cymdeithas Hanes

Dr Lester Mason, darlithydd yn yr adran Hanes ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, oedd y siaradwr gwadd ar yr 17 o fis Mai, a'i thema oedd cof-golofnau'r Rhyfel Mawr. Bu'n gwneud gwaith ymchwil i'r penderfyniad, a'r broses o godi'r rhain mewn trefi yn Siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion.

Dechreuodd ei ddarlith drwy edrych ar Gof-golofn Sir Gaerfyrddin, sydd i'w gweld yn Stryd y Priordy. Dyluniwyd gan y cerflunydd enwog, Syr William Goscombe John, ac fe'i dadorchuddiwyd ym 1924; y gost yn £2,000, a thalwyd amdani gan y gymuned.

Er fod yna cof-golofn sirol yng Nghaerfyrddin, teimlai trefi megis Llanelli a Rhydaman y dylid codi cof-golofn yn lleol, a fyddai'n dyst i'w colledion. Rhaid oedd penderfynu pa fodd oedd orau i gofio am y bechgyn dewr; - enwau ar golofn, ar sgroliau? - ac roedd yna nifer am cael eu dweud yn y penderfyniad, - teuluoedd galarus, eglwysi a chapeli, y milwyr a ddychwelodd adre, ynghyd â'r Cynghorwyr lleol.

Gan na chlodwyd cyrff y rhai a syrthiodd yn ôl i'r wlad hon, roedd y Cof-golofnau megis bedd i'r teuluoedd, ac yn fan y gallent ymweld ag ef i gofio am eu hanwyliaid a gollwyd. Roedd yn arferiad gwneud hynny ar ddydd penblwydd a dyddiadau arbennig yn hanes y teulu a'u bechgyn. Erbyn heddiw, yr 11eg o fis Tachwedd yw'r dyddiad y mae pobl yn ymgynnull o

Cynhaliodd Clwb Moduro Llamed a'r cylch daith ceir clasurol a cheir rali ar Fai'r 1af lle bu i 90 o geir gychwyn o faes parcio y Rookery. Trefnwyd y daith gan Islwyn Evans a Delun Evans, er mwyn codi arian er cof am dad Delun, Greg Evans. Roedd yr arian godwyd yn mynd tuag at ymchwil caner yr ymennydd.

gwmpas y gof-golofn i gofio.

Mae yna nifer o ffyrdd y coffeir y lluoedd a gollwyd, megis neuaddau coffa neu ysbytai, meysydd chwarae, neu gatiâu er cof. Tueddau'r eglwysi a'r capeli i greu sgroliau er anrhydedd,

Gofynnwyd i drigolion Llamed pa fodd yr hoffent gofio am eu dewrion, a'r gof-golofn daeth i'r brig. Syr William Goscombe John ddyluniodd hon hefyd, eto ar bris o £2,000. Casglwyd yr arian gan y gymuned, ac fe'i dad-orchuddiwyd ym mis Hydref 1921. Gwelir milwr yn sefyll, - ei wn dros ei ysgwydd, a'i droed ar y graig, a'r geiriau 'Er Gogonint i Dduw'.

Diolchwyd i Lester Mason gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, am ei ddarlith arbennig.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yr un noson. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad o'r tymor llwyddiannus sy'n dod i ben y mis hwn, gan ddymuno y byddai'r gymdeithas eto yn mynd o nerth i nerth. Ail-etholwyd y swyddogion i'w priod waith, ac ychwanegwyd dwy at y Pwyllgor gweithiol, sef Sian Davies a Jean Millest-Baker.

Amgueddfa Llamed

Cynhaliwyd diwrnod o brisio di-dâl yn yr Amgueddfa ar Fai 19eg, a bu llif cyson o bobl yn ymweld â'r arbenigwr, Ian Taylor, o gwmni Peter Francis, Caerfyrddin. Dyma'r trydydd diwrnod fel hyn i'w gynnal yn yr Amgueddfa; mae'n syndod faint sy'n dod i mewn a gofyn pa bryd fydd y nesaf!

Sefydliad Prydeinig y Galon Aardal Llanybydder a Llamed

Ar y 10fed o Fai cafwyd ein cyfarfod blynnyddol yn Eglwys Sant Tomos. Mae wedi bod yn flwyddyn lewyrchus iawn.

Y swyddogion am eleni yw - Llywydd : Y Cynghorydd Ivor

Williams. Cadeirydd : Dave Smith.

Ysgrifennyddes : Jennie Bracher.

Trysorydd : Ann Davies. Gohebydd

y Wasg : Jennie Bracher. Trefnydd

Cardiau Nadolig : Ann Davies.

Archwilydd: Eirios Jones.

Byddwn yn cwrdd tua pum gwaith y flwyddyn ac mae croeso i unrhyw un i ymuno â ni i helpu'r achos da yma.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Elinor ac Aled Morgan, Station Terrace ar enedigaeth mab bach Madog John. Wyr bach i Eiry Morgan, Heol Maestir a llongyfarchiadau ar ddod yn famgu.

Cymorth Cristnogol

Fe ddaeth cynulleidfa deilwng o'r gwahanol Eglwysi ynghyd i Festri Brondeifi ar nos Mai 19 ar gyfer yr oedfa flynyddol Cymorth Cristnogol a hynny yn ystod wythnos y casglu. Estynnodd y Parch Goronwy Evans groeso cynnes i bawb a soniodd am y fraint o gael adnabod teulu y gŵr gwadd Huw Thomas. Cyfeiriodd Goronwy hefyd at farwolaeth yr annwyl Joan James a fu yn aelod o bwyllgor Cymorth Cristnogol ac yn gefnogol i nifer o achosion da yn yr ardal gan gynnwys ei gwaith di-flino fel ysgrifennydd y pwyllgor Cancr lleol. Bu yna funud o dawelwch fel arwydd o werthfawrogiad am ei bywyd.

Cymerodd yr aelodau o'r gwahanol Eglwysi ran flaenllaw yn y gwasanaeth cyn i Twynog Davies gael y cyfle i gyflwyno Huw Thomas -Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol Cymru. Brodor o Aberystwyth yw Huw, a fu'n ddisgybl disglair yn ysgol Penweddig cyn cael ei dderbyn i astudio Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Penderfynodd wedyn newid cyfeiriad a dod yn ôl i Brifysgol Aberystwyth i wneud gradd uwch mewn Gwleidyddiaeth

Llanbedr Pont Steffan



Bu aelodau a ffrindiau Brondeifi yn ddiwyd yn tacluso, paentio a chwynu i baratoi'r capel ar gyfer croesawu eu Gweinidog newydd, y Parchedig Alun Wyn Dafis ym mis Mehefin. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu parodwydd i harddu'r lle ac i Margaret Jones, Glanhelen am ddarparu cinio blasus.

Rhyngwladol. Drwy gyfrwng lluniau fideo, cafwyd anerchiad hynod rymus ac effeithiol ganddo wrth gyfleu yn bennaf y tlodi enfawr yn Bangladesh lle mae miloedd o'r trigolion yn byw yng nghysgod llifogydd erchyll. Mae £5 yn medru sicrhau diogelwch i un teulu. Mae gwaith Cymorth Cristnogol yn gwneud gwahaniaeth.

Cyn terfynu'r oedfa arbennig yma, cyfeiriodd Twynog am waith clodwiw a di-flino Percy Evans sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i'r gwaith oherwydd anhwylder. Fe gyflawnodd ei ddyletswydd fel Trysorydd y gangen leol gyda graen, egni a brwdfrydedd ac mae'n dyled ni yn fawr iddo. Penderfynodd y pwyllgor lleol wneud casgliad ymysg ei gilydd fel rhodd fechan o werthfawrogiad.

Ar ddiwedd yr oedfa gofiadwy yma, diolchodd Twynog i bawb a oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd at lwyddiant y noson heb anghofio cyfraniad yr ysgrifenyddes Debra Angel a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch yn y teulu. Gwnaed casgliad o £53 ar ddiwedd yr oedfa gyda diolch eto am eich cyfraniadau a'ch ymdrechion dros nod Cymorth Cristnogol i wneud gwahaniaeth yn y byd creulon yr ydym yn byw ynddo.

Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'n Cyfarfod Blyneddol ar 9 Mai gan Ann ein Llywydd a dechreuwyd trwy ganu Cân y Mudiad i gyfeiliant Elma. Dymunwyd gwellhad buan i Rhiannon a Gwyneth a chydymdeimlwyd â Dolly ar farwolaeth ei thad. Darllenwyd y cofnodion gan Janet ac fe'i cafwyd yn gywir. Cyfeiriodd y Llywydd at nifer o ddigwydiadau yn ystod mis Mai yn cynnwys Te i'r Ifanc o Galon ar 18 Mai a'r Wyl Haf ym Machynlleth ar 21 Mai a'r aelodau yn cystadlu yn y cyflwyniad llafar a'r sgets. Diolchodd y Llywydd i

Elin am ein hyfforddi ac i Gillian hefyd am ei chymorth hithau. Hefyd trefnir noson gan y Rhanbarth i gloi gweithgareddau'r tymor yn Theatr Felinfach ar 16 Mehefin. Fe'n hatgoffwyd o'r gwahoddiad i ymuno â Sefydliad y Merched Coedmor ar 6 Mehefin mewn noson o Goluro a Lliwiau a phenderfynwyd cyfrannu £25 tuag at Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen. Bydd yr aelodau yn cymryd rhan mewn taith gerdded nodedig ar 7 Mehefin a diolchwyd i Mary am drefnu gyda'r arian yn cael ei rannu rhwng Ymchwil y Cancr a chronfa'r gangen.

Ein gwraig wadd oedd Eleri Davies, Prengwyn sydd yn arbenigwraig ym maes Hen Feddyginiaethau a threuliwyd orig hynod ddiddorol yn ei chwmni. Dechreuodd ymddiddori yn y pwnc dros chwarter canrif yn ôl. Bu'n sôn am nifer o blanhigion sydd yn medru gwella amryw afiechydon. Mae'r wermwd wen yn un o'r rhai mwyaf defnyddiol a hyd yn oed yn medru gwella malaria. Mae cymysgu dail saets a mêl yn dda iawn ar gyfer gwddwg tost, seleri yn effeithiol wrth drin gwynegon a blodau'r ysgawen gyda jeli petroliwm yn medru gwella ecsema a chlwyfau o bob math a dŵr bresych yn dda iawn ar gyfer doluriau fel ulcers. Roedd pawb ohonom wedi cael mwynhad wrth wrando arni. Talwyd pleidlais o ddiolch i Eleri gan Eryl am noson arbennig iawn. Paratowyd paned a bisgedi gan Veronica a Gwen ac enillydd y raffl oedd ein Llywydd.

Etholwyd Dilwen, Gwen, Gwynfil, Morfudd, Morwen, Verina a Veronica yn aelodau o'r pwyllgor yn ychwanegol at Elin, Gillian a Gwyneth ein swyddogion am y flwyddyn nesaf. Diolchwyd i Densil Morgan a Rhys Bebb Jones am gyfri'r pleidleisiau ac i Emyr Jones am gludo ein gwraig wadd o Brengwyn.



Y Cyng. David Smith a Meg Smith yn cael eu sefydlu yn Faer a Maeres Llanbedd mewn seremoni yn Neuadd yr Hen Goleg, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant ar y 6ed o Fai.



Yn gyntaf am adrodd 10-12 oed yn Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg Sadwrn 7fed o Fai oedd Ifan Meredith, Llanbedd.

Gŵyl Merched y Wawr

Cynhaliwyd Gŵyl Merched y Wawr ym Machynlleth sef rowndiau terfynol chwaraeon y Mudiad, cystadlaethau Celf a Chrefft, Seremoni Cadeiro a hefyd cyfle i gystadlu yn y Cyflwyniad Llafar a'r gystadleuaeth Sgetsh ar y llwyfan.

Teitl y cyflwyniad llafar oedd Merched Mentrus a rhaid canmol cyfarwyddraig Cangen Llanbedd - Elin Williams am ei dawn yn ysgrifennu sgript addas iawn i ni wrth glodfori merched a oedd wedi mentro mewn gwahanol feysydd yma yng Nghymru dros y canrifoedd. Enwyd merched fel Buddug, Gwenllian, Betsi Cadwaladr, Frances Hoggan, Zoniah Bowen, Jennie Eirian, Margaret Haig Thomas, Helen Thomas, Tanni Grey Thompson, Lowri Morgan a Cranogwen yn y cyflwyniad.

Aeth ein perfformiad yn iawn lan ym Machynlleth - ond nid oedd gwobr i Gangen Llanbedd o Ferched y Wawr eleni. Llongyfarchiadau mawr i Gylch Aeron am ennill - y tro cyntaf iddynt gystadlu - ac i Gangen Felinfach am ddod yn ail. Gwnaethom fwynhau clywed hanes tair menyw a oedd wedi



Rowena Evans gynt o Gellan, yn dathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar y 6ed o Fai 2016 yng nghartref Preswyl Hafan Deg Llanbedd.

newid cwrs hanes gan Gylch Aeron - Rosa Parks, Malala a Helen Thomas. Gyda Changen Felinfach fe ddeallom mai dynion yn unig oedd yn dreifio ein trenau a dyna lle oedd merched Dyffryn Aeron ym mentro dysgu sut oedd dreifio trên ac yn mynd o stesion i stesion yn canmol doniau a thalentau menywod dros y blyneddau. 'Roedd yn wir addysg dysgu hanesion yr holl ferched mentrus yma a derbyn ar yn un pryd fod yna le i ni gyfrannu hefyd yn ein bywydau bach ein hunain!

Yn ystod y prynhawn fe ddaeth y cyhoeddiad fod Gillian Jones o Gangen Llanbedd wedi ennill y trydydd wobwr am y gadair. 'Na beth oedd newyddion da - a sioc i Gillian ddeall ei bod wedi ei anrhydeddu.

Rhaid oedd perfformio'r sgetsh cyn mynd am adre. "Annibendod" oedd y testun a syndod mawr i'r "actorion" Elin, Lena, Ann, Mary ac Eryl - oedd y ffaith ein bod wedi mynd trwyddi heb rhyw lawr o banics - a bod y gynulleidfa wedi ymateb yn arbennig - a hynny yn y llefydd cywir hefyd!

Sioc o'r raddfa mwyaf oedd clywed mai ni oedd yn fuddugol! Mae'n debygol fod y beirniad Mari

Llanbedr Pont Steffan



Cynhaliodd Sefydliad y Merched Llambedd fore coffi yn Neuadd Eglwys San Pedr. Agorwyd y digwyddiad yn swyddogol gan Mrs Margaret Jones, cyn lywydd Sefydliad y Merched, Llambedd a oedd wedi ymuno â'r sefydliad dros hanner can mlynedd yn ôl, pan symudodd i Llambedd. Yn ei hanerchiad dymunodd yn dda i'r Sefydliad a fydd yn ystod yr haf yn dathlu canrif ers ei sefydlu. Rhoddodd Dorothy Lloyd, y Llywydd presennol flodau i Mrs Jones. Mynychodd Cadeirydd y Sefydliad, Mrs Anne Jones y bore coffi hefyd.

Owen o gwmni Arad Goch wedi chwerthin yn ddi-stop trwy gydol y perfformiad. Sôn am falchder – cawd bobi "Coaster" Merched y Wawr a llun gyda Llywydd y Mudiad a chanmoliaeth uchel gyda gwahanol unigolion am eu gwneud i chwerthin mas yn uchel ar ddiwedd y dydd. Rhyw fyd rhyfedd yw'r byd cystadlu 'ma.

Gyda llaw i'r rhai o chi wnaeth gyfrannu neu brynu atybolion o stondin Merched y Wawr llynedd – mae £28,000 wedi ei godi tuag at Gronfa Ymwchwil y Galon erbyn hyn! Meddylwch am y fath swm. 'Roedd Tegwen Griffiths yn bles iawn gyda'r cyfanswm – ac mae mwy i'w gwerthu yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni eto!

Diolch unwaith yn rhagor Elin am ein trefnu a'n harwain at sut brofiadau!

Cymanfa'r Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambedd yng nghapel Bethel Cwm Pedol ar Sul 15 Mai. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Llywydd Elliwy Dafydd, Bethel Silian a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Eirian Morgan a Rhys Davies, Bethel Cwm Pedol. Ein harweinydd gwadd oedd Delyth Morgans Phillips, aelod gweithgar a ffyddlon yn Noddfa sydd yn wyneb cyfarwydd i bawb ohonom. Yr organydd oedd Elfyn Davies, Bethel Cwm Pedol. Dilynwyd yr un drefn eleni gyda'r plant a'r oedolion yn canu bob yn ail. Mwynhawyd gwledd yng nghwmni'r plant a phob un yn ymateb yn rhagorol i ofynion yr arweinydd. Roedd brwdfrydedd ambell un yn peri gwên. Pleser hefyd oedd gwrandao arnynt yn darllen yr emynau yn raenus er bod nifer ohonynt yn ifanc iawn. Roedd

y plant wrth eu bodd yn gwrandao ar Elliwy yn cyflwyno neges yn seiliedig ar stori Noa ac ar ei chais yn cael llawer o hwyl yn creu synau'r anifeiliaid gwahanol aeth i mewn i'r arch.

Diolch i Elliwy am ei chyfraniad arbennig a ddaliodd sylw y plant i gyd.

Cafwyd canu gorfoledus gan yr oedolion a braf oedd gweld nifer dda o aelodau Côr Mebion Cwmann yn bresennol gan chwyddo'r mawl. Gan fod ein harweinydd yn arbenigwraig ym maes yr emynau cafwyd ganddi ffeithiau diddorol am bob un.

Talodd Elliwy deyrnged uchel i Delyth am ei gwaith clodwiw, i Elfyn am ei wasanaeth gwerthfawr yntau, i swyddogion ac aelodau Bethel Cwm Pedol am eu croeso a'u paratodau trylwyr, i Emlyn am arwain rihysal yr oedolion, i Janet am baratoi plant Ysgol Sul Noddfa, i bawb oedd wedi cymryd rhan ac i'r cantorion o'r capeli eraill am ddod i'n cynorthwyo. Daeth prynhawn pleserus i ben gyda phawb yn cyfranogi o'r lluniaeth ardderchog yn y festri a mwynhau'r gymdeithas o amgylch y byrddau. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Jill Tomos.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Diolch

Hoffai Cangen Plaid Cymru Llambedd Pont Steffan ddiolch i bobl y fro am y croeso cynnes a gafwyd ar stepen drws yn ystod yr ymgyrch etholiadol ddiweddar, ac am ymddiried yn Elin Jones i gynrychioli Ceredigion am dymor arall yn y Cynulliad. Llawnhawyd yn llwyddiant Elin sy'n parhau i



Cynhaliwyd Cyfarfod Gwanwyn, Cyngor Sefydliad y Merched Ceredigion, yn Theatr Felinfach ar ddydd Mawrth, Mai 10fed lle cyflwynwyd gwobrau.

Roedd dau sefydliad yn dathlu penblwyddi arbennig ac fe gyflwynwyd tystysgrifau iddynt – Sefydliad y Merched, Llambedd yn dathlu eu canmlwyddiant ym Mehefin a Phenparcau a oedd wedi dathlu 90 oed yn Chwefror. Derbyniodd y Llywydd, Dorothy Lloyd y dystysgrif gan y Cadeirydd sirol, Brenda Wright, ar ran Llambedd tra mai Samantha Hearne, Llywydd Sefydliad y Merched, Penparcau a dderbyniodd ar ei rhan hwy.

weithio'n galed drosom, ac ar ei anrhydedd ar ddod yn Llywydd y Cynulliad.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus i Roger Thomas, Gilfachwen sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Mehefin. Mwynha'r dathliadau.

Adran yr Urdd

Bydd aelodau'r adran a'r aelwyd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint dros hanner tymor a phob hwyl iddynt. Diolch yn fawr i Rhiannon am hyfforddi ac i Lois am gyfeilio ac i Janet a Llinos am eu trefniadau.

Yn ystod ein cyfarfod olaf fel adran cafwyd noson o hwyl yn chwarae gemau a bwyta cŵn poeth. Diolch i'r arweinyddion ffyddlon Anthea, y ddwy Amanda, Anita a Llinos ac i bawb sydd wedi cynorthwyo drwy gynnal noson yn ystod y flwyddyn. Dymunwyd yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn ein gadael ac yn ymuno â'r aelwyd yn mis Medi a diolchwyd iddynt am eu ffyddlondeb i'r adran dros y blynnyddoedd.

Taith Elusennol y Clwb Moduro

Fe wawriodd Mai 1af yn ffwl gyda glaw mân a niwl. Ond wnaeth y tywydd ddim torri calon cefnogwyr Taith Geir Clasurol a Rali Clwb Moduro Llambedd!

Yn wir ymgasglodd dros 90 o geir ar Rookery Llambedd i gefnogi'r digwyddiad, a gafodd ei drefnu er cof am gyn Lywydd y Clwb, Greg Evans, a gollodd ei frwydr yn erbyn tiwmor ar yr ymennydd llynedd.

Daeth ceir o bob lliw a llun ynghyd, yn geir a faniau clasurol, yn geir rali pwerus a drud, a cheir mwy modern diddorol. Roedd y Rookery yn fwrwm o bobl o bob cwr yn

edmygu'r sioe o hen a newydd.

Rhyfedd oedd gweld bod cymaint o ddiddordeb yn y ceffylau pedair olwyn gan yr hen ac ifanc!

Chwap wedi hanner dydd dechreuodd y neidr hir o geir ymlwybro ar eu taith ar hyd lonydd cul Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn un rhes hir teithiodd y cerbydau o Lanbedd i Lanybydder, o Landeilo i Langadog, lan i Lyn Brienne am baned o de, cyn dychwelyd heibio Soar y Mynydd, i lawr i sgwâr Tregaron ac yn ôl i Lanbedd yn ddiogel.

Roedd pawb wedi joio mas draw, ac yn barod am lymaid a chlonc i rannu profiadau.

Yn ystod y nos parhawyd gyda'r hwyl gyda chinio a dawns yn Ffreutur y Coleg, ynghyd â raffl ac ocsiwn i werthu rhai o'r nwyddau godidog oedd wedi cael eu cyfrannu at yr achos gan aelodau'r clwb a busnesau lleol.

Yn wir roedd hi'n ddiwrnod perffaith i goffau dyn mor arbennig. Does dim ffigwr terfynol eto gan fod arian dal yn llifo mewn, ond disgwylir i'r cyfanswm fod ymhell dros £5,500 erbyn y diwedd. Diolch i Islwyn Evans am yr holl drefniadau a hefyd i Delun am ei chyfraniad hithau i lwyddiant y diwrnod.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog

Yng nghyfarfod blynyddol Festri'r Pasg, diolchodd y Parchedig Suzy Bale i'r Swyddogion, aelodau a ffrindiau am eu cefnogaeth parhaol yn ystod 2015, gan ddiolch yn arbennig i Mrs Lynne Goodall, y Trysorydd am baratoi'r fantolen ariannol. Er bod y fantolen yn ffafriol, mae'n rhaid tynnu sylw at y ffaith bod yr Eglwys yn costio oddeutu £1,400 y flwyddyn i'w chynnal.

Ail-etholwyd, a derbyniodd y swyddogion eu cyfrifoldebau am flwyddyn arall. Penderfynwyd cael cyfarfod arall i drefnu lawnsiad y llaw-lyfr newydd sy'n olrhain hanes yr Eglwys ar y 18fed o Fehefin am 2 or gloch. Diolch i Geraint Davies am gymeryd at y cyfrifoldeb o gyflawni'r gwaith yma, ac i Gwennan a Siwan am gyfeithu'r cynnwys i'r Gymraeg.

Bu Mrs Pauline Roberts-Jones, Tynporth mewn cysylltiad â theulu'r diweddar Joseph Reuben (y ffoadur o wlad Belg yn ystod y Rhyfel Mawr), ac maent wedi derbyn gwahoddiad i'r lawnsiad yn Eglwys Llanwenog; edrychwn ymlaen i'w croesawu.

Gyda thristwch y cofiwn am y diweddar bensaer Roger Clive-Powell, a fu'n gyfrifol am yr adnewyddaid yn 2004-05, - ef yn or-ŵyr i'r Cynrol a Mrs Davies-Evans, Plas y Dolau, a fu'n chwarae rhan bwysig ym mywyd a gwaith Joseph Reubens ar adeg anodd yn ei fywyd. Gobeithiwn y bydd ei deulu yntau yn medru bod yn bresennol. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni ar y prynhawn arbennig yma.

Ar Fai 15fed, Sul y Pentecost, bedyddiwyd Alfie Thomas Clarke, plentyn bach Charlotte a Matt Clarke, Llambled, ac ŵyr i Alan a Wendy Mellor, Rhiwson-isaf. Dymunir pob bendith ac hapusrwydd iddo.

Ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r aelodau sydd wedi methu mynychu'r oedfaon yn ddiweddar oherwydd anhwylder, a chydymdeimlwn â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Clwb Cant mis Ebrill: 1. Ben a Sam Lewis, Rhiwson Uchaf; 2. Keith Goodall, Sychbant; 3. Carys Davies, Fronhelog.

Y Gymdeithas Hŷn

Ychydig yn wlyb oedd y tywydd wrth deithio yn y bws tuag at Sir Frycheiniog ar daith mis Mai, ond yn ffodus ciliodd y glaw ganol y bore. Cyrraedd Talgarth a mynd i'r hen Felin a adnewyddwyd tua pum mlynedd yn ôl; gweld y rhod ddŵr yn troi, a'r grawn yn troi'n flawd, a'i becynnu yn barod i'w werthu. Ond, yn ogystal mae cafffi a siop ynghlwm wrth y felin,

lle mae'r blawd yn troi'n fara, ac ar gael i'r cyhoedd. Cyfle am 'baned yn y fan honno cyn symud ymlaen.

Teithio ychydig iawn o ran pellter i gyrraedd Canolfan Arddio yr Hen Rheilffordd; lle y gallech dreulio diwrnod cyfan! Planhigion ac offer garddio o bob math, celfi i'r ardd a'r tŷ, dillad – a llawer, llawer mwy. Lle bwyta yma eto – cyfle i eistedd am hoe a phaned cyn gadael hanner y prynhawn am y Gelli Gandryll. Paratodau yn amlwg ar y gweill yno ar gyfer Gŵyl y Gelli ddiwedd y mis, a chyfle i bori ymysg y nifer siopau llyfrau.

'Nôl i'r Plough yn Rhosmaen, Llandeilo am swper, a phawb yn mwynhau'r wledd yno. Braff oedd cael ffrindiau newydd yn ymuno â ni, a gobeithio y byddant yn edrych ymlaen i ddod eto ar y daith nesaf; Crwydro Ceredigion fyddwn ar daith mis Mehefin, - ac yn croesi i Sir Gâr am swper! Enwau i Yvonne, 480590.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Nans a Huw Davies, Y Gweithdy, Brynteg ar ddyfodiad wyres fach, merch i Dwynwen a Tim. Chwaer fach i Hedd.

Ysgol Llanwenog

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 y dair ysgol ar ymweliad breswyl i Ganolfan yr Urdd yng Nglan Llyn. Teithiodd 19 o blant i'r Bala yng ngwmni Mrs Nerys Vobe, Mrs Sirian Davies a Mr Roderick.

Cafodd y plant dridiau bendigedig – wrth ehangu eu gorwelion a chael cyfleoedd i brofi gweithgareddau amrywiol ac i ddatblygu sgiliau newydd.

Cafwyd cyfle i ganwio ac adeiladu rafft ar Llyn Tegid, dringo, ac 'abseilo' oddi ar y tŵr, a dringo ar y rhaffau uchel. Bu'r disgyblion yn nofio, yn cyfeiriannu ac yn derbyn gwersi saethyddiaeth yn ogystal â chwarae pêl droed a dawnsio yn y disgo ar y noson olaf. Roedd y bwyd yn flasus a'r tywydd ar y cyfan yn garedig. Bu ymddygiad y disgyblion yn rhagorol ac yn elfen bwysig dylid ymfalchïo ynddi, wrth iddynt gydweithio yn arbennig a mwynhau y gweithgareddau. Roedd yn brofiad gwych iddynt i gyd.

Llongyfarchiadau i Sion O'Keffee, Sara Thomas, Rhodri Gregson, Hannah Ayonadu a Harri Rivers am gystadlu yn arbennig o dda yng nghystadleuaeth rhedeg traws gwlad Ceredigion yr Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar.

Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 mewn cystadleuaeth Chwaraeon Potes a drefnwyd gan yr Urdd hefyd. Cynhaliwyd y weithgaredd



Buddugwyr Cenedlaethol Celf o Ysgol Llanwenog. Rhodri Gregson 1af yn yr adran ffotograffiaeth CA 2 ac Ethan Rees 2 ail am waith 2 D i blant y Cyfnod Sylfaen.



Disgyblion Ysgol Llanwenog, Cwrtnewydd a Llanwnnen yn mwynhau Bowlio 10 yng Nglan-llyn.

yn Ysgol Bro Pedr. Cafwyd tipyn o hwyl cyn i'r tywydd garw ein trechu a bu'n rhaid chwilio am gysgod yn neuadd yr ysgol i gael diod a chreision.

Mae'r clwb 'Hwyl' a'r clwb Garddio wedi bod yn cwrdd ar nos Fawrth yn yr ysgol. Erbyn hyn mae yna lysiau a ffrwythau wedi eu plannu yn yr ardd. Caiff y plant gyfle i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth am dyfiant wrth drin y pridd.

Diolch i Ficer Suzy Bale am ddod i fewn yn wythnosol i gynnal gwasanaeth yn yr Ysgol, ac am rannu syniadau, moeswersi ac hanesion o'r Beibl gyda'r plant.

Mae Jac Rees, swyddog datblygu rygbi yr ardal wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi cyson gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Mae'r disgyblion yn mwynhau yn fawr iawn.

Diolch i Gymdeithas Rhieni'r ysgol am drefnu casgliad 'Bags for Schools'. Bu'r ymateb yn un cadarnhaol a bu disgyblion blwyddyn 6 yn brysur yn llwytho'r fan gyda'r bagiau rhoddedig.

Cofiwch am ein ffair Haf flynyddol fydd yn cael ei chynnal ar dir yr ysgol ar Nos Wener 17 eg o Fehefin. Croeso i bawb.

Clwb Clonc

Mehefin 2016

£25 rhif 38 :

Leighton Tomos Davies,
Afallon, Drefach.

£20 rhif 353 :

Tony Lewis,
Brynawel, Cwmann.

£15 rhif 502 :

Ifor Williams,
10 Ffynnonbedr, Llambled.

£10 rhif 221 :

Ieuan James,
Ael-y-Bryn, Llambled.

£10 rhif 288 :

Mrs Lynda Jones.
Gwrdd, Stag's Head,
Tregaron.

£10 rhif 467 :

Mrs Mary Thomas,
Ffosffald, Drefach.

£5 rhif 403 :

Rob Phillips,
Llety Clyd, Stryd Newydd,
Llambled.

Llangybi a Betws Bledrws



Nos Sadwrn 23ain o Ebrill cynhaliwyd Aduniad Hen Ysgol, Llangybi i gofio 40 mlynedd ers cau'r ysgol. Braff oedd croesawu hen ddisgyblion yn ôl a chafwyd noson hwylus dros ben yn ngholeg Llambled.



Agoriad Swyddogol Canolfan Long Wood - Torrwyd y rhuban gan Ruth Bates, Pennaeth Cyfathrebu, Y Gronfa Loteri. Hefyd yn y llun mae'r Cyng. Odwyn Davies; Phillip Swain, Cyfarwyddwr; Marilyn James a'r Maer, y Cyng. Dai Smith.



Daeth cwmni cyhoeddi Peniarth i ddosbarth derbyn Ysgol y Dderi i lansio Ap newydd sbon i blant y Cyfnod Sylfaen sef 'Betsan a Roco yn y Pentre'. Cawsom y fraint o gwrdd â Betsan a Roco, sef cymeriadau o'r Ap bu'n hyrwyddo' adnodd arbennig yma sy'n gymorth i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant 3 i 5 oed. Bu Betsan yn cael hwyl yn defnyddio'r ap gyda'r plant tra bod Roco yn gwneud gwaith plannu yn ein tŷ gwyr. Gweler tudalen drydar @CPeniarth #betsanaroco.

Rhai disgyblion blwyddyn 3 a 4 Ysgol y Dderi ar draeth Llangrannog



Dathlu

Llongyfarchiadau i Dilwyn ac Eileen Pugh, Brofelin ar ddathlu penblwydd priodas go arbennig ar Ddydd Gwener 13eg o Fai, 55 o flynyddoedd.

Hamdden

Y siaradwraig wadd ym mis Mai oedd Jennifer Cairns. Cawsom ganddi araith yn herio'r meddwl yn ymwneud ag ysbyrdion. Mae wedi bod yn ymchwilio ar y pwnc yma ers blynnyddoedd ac yn dal i edrych am wybodaeth. Bu yn siarad am bobl a oedd wedi cael profiadau o deimladau rhyfedd tra yn ymweld neu basio heibio rhai llefydd. Os oes gan rhywun unrhyw atgofion o deimladau rhyfedd mewn mannau arbennig mae croeso iddynt gysylltu â'r siaradwraig. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn am brynhawn diddorol gan Rowena Williams.

Enillwyd y raffl gan Sally Davies, Gwen Lewis, Rowena a Barry Williams. Etholwyd Gwen Lewis fel Is-Lywydd. I ddiwedd y cyfarfod cafwyd te a bisgedi wedi eu rhoddi gan Sally Davies a Mair Spate.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 3ydd pan y cynhelir y trip blyneddol i Hwlfordd. Yno yr ymwelir â ffatri siocled a bydd pryd o fwyd wedi ei drefnu yn Y Tanderdy yng Nghaerfyrddin ar y ffordd adref.

Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth dau o drigolion y pentref sef Mrs Holgate a fu yn byw yn Forest Lane am rai blynnyddoedd ac a fu yn amaethu yn yr ardal cyn ymddeol. Cydymdeimlir â'i theulu a'i chyfeillion oll.

Hefyd, Mr Bill Pinkstone, Caerffynnon un o drigolion hynaf y plwyf a hunodd ar Fai 7ed. Bu ef yn byw yn pentref am dros ddeugain mlynedd ac ef ar un cyfnod oedd post feistr y pentref a pherchennog y siop.

Hefyd, cydymdeimlwn â'i deulu a'i ffrindiau. Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mr a Mrs Maldwyn Ebenezer, Godre'r Coed, Olmarch yn eu profedigaeth ar farwolaeth ei hewythr yn ddiweddar. Cydymdeimlir â'r holl gysylltiadau teuluol.

Cyngor Bro

Gellir gweld cyfrifon y Cyngor Bro gan y Clerc yn Maesyffynnon trwy apwyntiad rhwng 10.00y.b a 6.00y.h. tan Mehefin 16eg drwy ffonio 01570 493325.

Merched y Wawr Y Dderi

Ar Fai 18fed cyfarfu y gangen i drefnu rhaglen y tymor nesaf. Rhoddwyd y Raffl gan Deborah Jones ac fe'i henillwyd gan Mair Spate. I ddiwedd y cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi ei rhoddi gan Eleanor Evans ac Iris Quan.

Cydymdeimlwd â Gwyneth Evans yn ei phrofedigaeth ar farwolaeth ei chwaer yn ddiweddar ac hefyd â'r gofalwr yn ei dristwch ar farwolaeth ei fam.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgoldy Cwrt, Llangeitho am 2.00y.p ar ddydd Mercher, Mehefin 15fed. Yno, gwelir gardd llawer o blanhigion a llynnoedd ac hefyd fe geir te cyn dychwelyd adref.

Nos Iau, Mehefin 16eg bwriedir ymweld â Theatr Felinfach – ceir gweld 'Casgliad y Werin'. Fydd y noson yng ngofal Hazel Thomas a Brenda Evans.

Maesyffynnon

Cynhelir Cyngerdd Blyneddol y Capel ar nos Sul, Mehefin 26ain am 7:30y.h. Y Cadeirydd yw y Bon. John Davies, Llambled ond o Langybi yn wreiddiol ac yn un o blant y capel. Yno y bu ei fam a'i dadcu yn flaenoriaid am flynyddoedd. Y côr gwadd yw Côr y Gen, Aberystwyth – Côr y Llyfrgell Genedlaethol. Pris Mynediad £5 a'r elw i gyllid y Capel.

Te Croeso

Ar Fai 22ain cynhaliwyd Te Croeso i'r ficer newydd yr Eglwys sef y Parch Andy Herrick. Daeth tyrfa dda ynghyd o eglwysi a chapeli'r cylch. Yno hefyd yr anrhydeddwyd Mrs Rowena Williams am ei gwasanaeth anhygoel fel organyddes yr eglwys am bron i 65 o flynyddoedd. Derbyniodd dus hardd o flodau fel cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth clodwiw i'r gymuned am flynyddoedd maith gyda dymuniadau gorau i'r dyfodol. Rhoddwyd sypreis hefyd i Mr Arthur Edwards pan y derbyniodd yntau gydnabyddiaeth am ei hir wasanaeth i'r eglwys.

Llangybi a Betws Bledrws

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â dau deulu sydd wedi bod mewn profedigaeth yn ddiweddar sef y teulu Holgate, Lluest yn ei colled enbyd ar farwolaeth mam, mam yng nghyfraith a mamgu.

Hefyd, cydymdeimlir ac Ormona a Wynne Ebenezer, Station View yn eu profedigaeth o golli eu hewythr yn Llundain. Cydymdeimlir â holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau.

Ysgol Y Dderi

“Y trochiad mawr” yw thema Blwyddyn 3 a 4 sy’n canolbwyntio ar gymharu cynefinoedd dŵr croyw a chynefinoedd glan y môr. Cawsom ni ddiwrnod arbennig yn chwilota am greaduriaid dŵr croyw yng Nghwm Elan, ac yna ddiwrnod arbennig arall yn chwilota am greaduriaid glan y môr ar draeth Llangarannog. Diolch i Mr Russ Edwards am ymuno â ni ac am ei arbenigedd. Daethom o hyd i nifer fawr o greaduriaid cyffrous iawn!

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yng nghwmni Emyr Philips am ddiwrnod cyfan wrth gael eu tywys o gwmpas gogledd Sir Benfro. “Arwyr a dihirod” oedd thema’r dosbarth, a buon nhw’n dysgu am

Twm Carnabwth a Merched Beca. Uchafbwynt y daith oedd cael cyfle i ail-greu araith Twm Carnabwth yn sgubor Glynsaithmaen! Profiad bythgofiadwy.

Aeth naw o ddisgyblion yr ysgol i gyfarfod Erasmus+ yn yr Eidal yn ddiweddar. Buon nhw’n ymweld â Thŵr Pisa, ac yn mwynhau atyniadau Florence a Pharc Pinocio. Canolbwynt y daith oedd addysgu yn gorfforol, a pharatowyd amserlen brysur iawn i’n plant. Cafodd y disgyblion gyfle i gyflwyno cardiau gemau buarth i weddill ein ffrindiau o Ewrop oedd wedi dod i gwrdd â ni o Slofenia, Groeg, Norwy a Latfia. Diolch i Mrs Ann ac i Mr Dylan am eu gofal a’u hamser.

Bu disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn cynhadledd i benaethiaid Ceredigion yn ddiweddar yn y prif siambr ym Mhenmorfa, yn sôn am eu profiadau dysgu cyfoethog. Roedd pob un wedi gwneud eu gorau glas ac roedd Mrs Heini yn falch iawn ohonynt.

Llongyfarchiadau i blant hŷn yr ysgol am lwyddo i ennill y wobr gyntaf am greu gwefan, dros Gymru gyfan yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Campus. Gweler y wefan buddugol <http://prif82.wix.com/oriel-y-dderi>.

Cwrtnewydd



Dechreuad arbennig i’r tymor sioeau i deulu Evans o Lanrhytud, gynt o Brynnyreglwys, Cwrtnewydd, oedd yn cystadlu yn y ffair wanwyn yn Llanelwedd ar y penwythnos am ennill y cwpan am y pencampwr gorau yn adran y defaid Balwen gyda’u hwrdd yn cael ei arddangos gan Gerwyn Jones sef partner Tania Evans.

Ysgol Cwrtnewydd

Aeth nifer o blant hŷn yr Ysgol i gystadleuaeth trawsgwlad rhanbarth Ceredigion a chafodd ei chynnal ar gaeau Clwb Rygbi Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i bawb ac i Alaw Jones am gipio’r wobr gyntaf i ferched blwyddyn 6. Da iawn chi!



Cynhaliwyd ein Calan Mai blynyddol ar ddydd Llun, Mai 2il. Ein llywyddion eleni oedd Mr a Mrs Gareth Davies, diolch i Mary am ei haraith llawn atgofion o’r Calan Mai

a fu ac am eu rhodd haelionus. Daeth nifer fawr o redwyr i gefnogi’r ras eleni eto o redwyr clybiau’r ardaloedd cyfagos i blant bach tair oed. Diolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Lyn Rees am drefnu’r rasys a hefyd i bawb a wnaeth gefnogi a sicrhau llwyddiant y diwrnod.

Aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i gymryd rhan a chael prynhawn o hwyl yn Chwaraeon Potes yr Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Pedr.

Dyna hwyl a sbri a gafwyd gan blant blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol gyda phlant Llanwenog a Llanwnnen a nifer eraill o ysgolion Ceredigion. Aethant am dridiau i Wersyll Glanllyn gan gymryd rhan mewn nifer helaeth o weithgareddau cyffrous ac anturus megis canŵio, dringo, bowlio deg, nofio, adeiladu rafft a disgo ond i enwi rhai! Cafodd yr holl blant brofiadau bythgofiadwy ac edrychwn ymlaen at y trip nesaf.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Ela Mablen Griffiths-Jones, 2 Fronddu am ennill yr ail wobr am ysgrifennu Barddoniaeth Bl. 2 ac Iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint.

Gohebiaeth



Annwyl Olygydd,

Fel yr athrawes gyntaf a fu’n gweithio yn yr Andes o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg ga i ddweud mor falch y mae ‘Cymry’ Esquel o’u Canolfan. Pan gyrhaeddais i yno ym 1997 yr unig gyfle gaent i gymdeithasu oedd ar y Sul, rhyw bedair neu bum gwaith y flwyddyn! Codi Canolfan oedd yr unig beth amdani!

Dyma fynd ati i ‘werthu brics’ ar eu rhan - punt y fricsen! Digon o bres i osod y sylfaen i ddechrau, gefnodyn â’r capel, ac ymlaen nes bod digon i godi Canolfan braf a hynny gyda chydweithrediad y bobl draw heb anghofio’r gefnogaeth a gafwyd gan lywodraeth y Dalaith.

Llwyddwyd i agor y Ganolfan ym mis Mawrth 2002 ac erbyn hyn mae wedi agor ei drysau i gannoedd o ymwelwyr o Gymru ac wedi paratoui gwledd o fwyd ar eu cyfer. Ond nid croesawu ymwelwyr yn unig yw amcan y Ganolfan. Mae’r adeilad ar agor yn ddyddiol er mwyn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr o bob oed a chefnidir. Ceir cegin fach yno lle bydd y tegell bob amser yn mudferwi ar gyfer cymryd tot o FATE! Yn y Ganolfan mae’r llyfrgell a’r ffilmgell. Dyma lle bydd y plant yn eistedd wrth draed eu hathrawon a’r bobl ifainc, trwy weithgareddau Menter Patagonia, yn cynnal twmpath ac yn cael hwyl ar actio a choginio.

Â’r adeilad bron â bod yn 14 oed mae galw am estyniad. Mae galw am ddwy ystafell ddosbarth, am swyddfa fechan, am ‘departamento’ ar gyfer yr athrawon a ddaw o Gymru ac i’r gwirfoddolwyr fydd yn cynnig eu gwasanaeth yn eu tro. Mae’r estyniad newydd ar ei hanner a does fawr o obaith cwblhau’r gwaith heb gymorth ariannol o Gymru. Derbyniwyd swm o arian tuag at y prosiect gan lywodraeth y Dalaith, ond mae hwn eisoes wedi’i wario! Disgynnodd y ‘peso’ yn ei werth ac mae costau byw ar ôl i’r llywodraeth newydd ddod i fod wedi mwy na dyblu.

Dyma fi, felly, unwaith eto yn cymryd y cyfrifoldeb o ofyn am gyfraniadau gan sefydliadau a chymdeithasau ac unigolion. Gwn fod galwadau lu arnom yng Nghymru’r dyddiau hyn, ond os oes rhywun yn teimlo ar ei galon y gall gyfrannu swm o arian, boed fach neu fawr, a fyddwch mor garedig, os gwelwch yn dda, â chysylltu â mi. Mae cyfrif yn dal i fod ym Manc Lloyds, Rhydaman yn dwyn yr enw ‘CANOLFAN GYMRAEG YR ANDES.’

Yr eiddoch yn gywir,
Hazel Charles Evans,
Llais yr Andes, Llandybïe, Rhydaman SA18 2TH

Cwmsychpant

Ennill Cadair

Yn ystod penwythnos Calan Mai enillodd Endaf Griffiths, Penlanfawr Gadair Eisteddfod Maenclochog. Da iawn ti Endaf.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Bryn a Sian, Tawel ar eu dyweddiad yn ystod y mis. Dymuniadau da i chi.

Pen-blwydd arbennig

Ar ddechrau mis Mai dathlodd Einir Ryder, Tyngrug-ganol ben-blwydd arbennig. Gobeithio i ti fwynhau’r dathlu.

Cellan

Penblwydd Arbennig

Mi ddathlodd Twm, 1 Tre Cynon ei benblwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Gobeithio dy fod wedi mwynhau, llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Dyfed a Meinir, gynt o Ffosyffin a’r teulu ar ôl colli mamgu, sef Jane Anne Harhry, Ystrad Aeron. Yn meddwl amdanoch yn yr amser trist yma.

Llanfair Clydogau



Ymweliad Yr Esgob

Ar ddydd Sadwrn, Mai 7fed, cafodd Llanfair a Chellan yr anrhydedd o gael ymweliad gan yr Esgob Wyn Evans, o Esgobaith Eglwys Cymru, Ty Ddewi. Mae'r esgob yn ymddeol yn yr Hydrefa'i fwriad yw ymweld â'r holl eglwysi o dan ei arweiniad. Tra yn yr ardal cafodd y cyfle i gwrdd â phobol y plwyf ac i fwynhau lluniaeth oedd wedi ei baratoi iddo yn Neuadd Llanfair gan Paula Barker a Sally Leech. Cafodd y cyfle i weld yr eglwys a'r fynwent ac roedd yn awyddus i weld y gwaith oedd yn cymryd lle ar bont Llanfair. Fel cofnod o'i ymweliad cyflwynwyd iddo lyfr o hanes Llanfair 'Struggle for Survival in the Cardiganshire Hills' gan Alan Leech. Pan yn mynd o amgylch cydymdeithiodd gyda'r Parch Bill Fillery sy'n offeiriad dros dro yn eglwys Llanfair a Chellan.

Cyn symud ymlaen o Lanfair manteisiodd ar y cyfle i ymweld â chyfleusterau godro newydd Fferm Llwyn. I gloi ei ymweliad cafwyd gwasanaeth hwyrol weddi yn Eglwys y Seintiau Cellan.

Sefydliad y Merched

Yng nghyfarfod mis Ebrill cafwyd noson ddiddorol dros ben o dan arweiniad Eluned Davies o Dihewid. Bu Eluned yn dangos sut i wneud yr hen grefft draddodiadol o wneud matiau rhacs.

Gofynnwyd i bawb i ddod â defnydd sach, hen grisau 'T' lliwgar, siswrn a teclynau addas i wneud y gwaith. Cafwyd noson weithgar gyda phawb wedi mwynhau ac edrych ymlaen yn awr i nosweithiau tywyll y Gaeaf i gael cyfle i gynllunio a chreu matiau unigryw. Cafwyd lluniaeth hyfryd, fel arfer.

Gŵyl Fai

Dros y penwythnos daeth rhai cannoedd o bobol anisgwyladwy i'n pentre ni yn chwilio ac yna myned i 'rave' yng nghoedwigoedd Mynydd Llanfair. Mi achosodd y digwyddiad hwn orlenwad anferth ar ein heolydd mynydd cul, a llawer o sŵn miwsig electronig uchel. Mae sawl person sy'n byw yn yr ardal wedi cysylltu â chynghorwyr lleol i ofyn beth fydd yn bosib wneud i rwystro hyn rhag

digwydd yn y dyfodol.

Llyfr Hanes

Yn y flwyddyn 2007 fe gyhoeddwyd 'History of a Cardiganshire Parish, Llanfair Clydogau'. Cyhoeddwyd 500 o lyfrau a gwerthwyd hwy i gyd yn fuan iawn. Mae'r llyfr nawr wedi cael ei ail-gyhoeddi gyda chopïau i'w cael ar werth yn Siop Llanfair.

Marwolaeth

Yn 94 oed bu farw Bill Kingston, Cae'r Ffynnon, Llangybi. Roedd Bill yn ŵr i'r diweddar Doreen, oedd wedi ei geni a'i magu ym Mhantyresgair, Llanfair, a'r ddau wedi priodi yng Nghapel Mair, yna symud i fyw i Birmingham. Ar eu hymddeoliad symudodd y ddau yn ôl i Gymru, i Llangybi, i gadw'r Siop a'r Swyddfa Bost, lle buont am flynyddoedd lawer. Roedd y ddau yn anabyddus iawn yn yr holl fro.

100 Oed

Pleser oedd clywed fod Rowena Evans newydd ddathlu ei phenblwydd yn gant oed. Roedd wedi ei geni ym mhentref Llanfair yn 1916 ac yn bresennol yn blentyn ifanc ym mharti dathlu diwedd y rhyfel byd cyntaf. Ers peth amser nawr mae wedi ymgartrefu yng nghartref Hafan Deg yn Llanbed. Llongyfarchiadau cynnes iawn iddi.

Y Bont

Newyddion braf! Ar ôl naw wythnos o waith gan Gyngor Sir Geredigion, mae y bont wedi ei hagar unwaith eto, gyda phobol y pentre a Jean yn y siop, yn dathlu ar ôl amser anghyfleus dros ben. Hwre fawr.

Penblwydd Arbennig.

Llongyfarchiadau cynnes i Paul Miller ar gyrraedd yr hanner cant. Penblwydd hapus a mwynha'r dathlu Paul.

Yr Ŵyl Gwrw.

Cofiwch am ein Gŵyl Gwrw flynyddol sy'n cael ei chynnal yn y Neuadd dros y penwythnos yma, yn dechrau heno, nos Iau, Mehefin 2, ac ymlaen nos Wener, nos Sadwrn a bore Sul. Dewch yn llw.

Llanwnnen



Rhedwraig o fri

Llongyfarchiadau unwaith eto i Alaw Jones, Blaenwaun-ganol ar ei llwyddiant mewn rasys lleol yn ystod y mis diwethaf. O fewn wyth diwrnod, cafodd Alaw ganlyniadau arbennig mewn tair ras, gan ychwanegu pedwaredd gwobr wythnos yn ddiweddarach.

Enillodd Alaw y wobwr gyntaf yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad yr Urdd i Ysgolion Ceredigion yn Aberaeron ac yna'r wobwr am fod y plentyn cyntaf o ysgol Cwrtnewydd i orffen ras Calan Mai yr ysgol ar Ŵyl y Banc ddechrau mis Mai. Eleni oedd y trydydd tro i Alaw ennill y darian barhaol a gyflwynir i'r disgybl cyflymaf o'r ysgol yn y ras hon ac roedd Luned, ei chwaer, hefyd wedi ennill yr un darian yn ystod ei hamser yn ysgol Cwrtnewydd.

Y penwythnos canlynol, daeth Alaw yn drydydd yng nghystadleuaeth trawsgwlad Gŵyl Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth lle'r oedd aelodau o bob rhan o Gymru yn cystadlu. I gloi'r cyfnod llwyddiannus hwn, daeth Alaw hefyd i'r brig fel y ferch gyntaf yn ras y plant a drefnwyd gan Glwb Rhedeg Sarn Helen yn Llanbed ganol mis Mai - y tro cyntaf iddi gystadlu yn y ras.

Tipyn o gamp i redwraig ifanc - dal ati!

Diolch

Dymuna Lizzie Anne Jones gynt o Benllain, Llanwnnen ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Rhifyn Gorffennaf

Yn y Siopau
Gorffennaf 7fed

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Mehefin 27ain

TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybi,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensiô o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**



Enw: Wendy Davies

Oed: 24

Pentref: Esgairdawe

Gwaith: Gweithiwr cymorth

Partner: Danny

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Chwarae gyda fy mrodyr ar ein beics ar forecourt y garej.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Power Rangers.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Mae 'na ormod ond oedd fflasio nicers i Dadcu fy ffrind cyn dawns y chweched dosbarth yn embarrassing.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

I fod yn gwrtais.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?

S Club 7

Pan oeddet yn blentyn, beth oedd eisiau bod ar ôl tyfu?

Milfeddy

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?

Pan oeddwn i'n dost, wnaeth Danny brynu blodau, siocled a lucozade i mi.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Adref ar y fferm gyda Danny.

Pwy yw dy arwyr?

Mam a Dad

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?

Cath achos rwy'n dwlu arnyn nhw.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Gwybod fy mod yn helpu pobl ac i weld nhw'n hapus.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Gweithio ar y penwythnos.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?



Pobl sy'n gyrru yn gyflym mewn 30mph ond wedyn yn mynd yn araf mewn 60mph.

Beth sy'n codi ofn arnat?

Corynnod.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?

Pan oeddwn i'n dost nôl dros amser wyna a wedyn pasio fe mlaen i Danny. Doeddwn i ddim yn lot o help yr wythnos 'na yn y sied wyna.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Pan aeth Danny i sefyll ar ben ford goffi i cael gwared o goryn ar y nenfwd.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?

Yn nhŷ merched coleg ar ôl bod mas. Dihuno yn yr armchair a'r merched wedi tyco fi i mewn gyda blanced a pizza fi wedi hanner bwyta dal wrth fy ymyl.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Graddio o'r brifysgol.

Ac yn bersonol?

Pasio gradd 8 ar y piano.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?

Colur a lliwio gwallt.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Gwnes i ddechrau rhedeg gyda couch to 5k grŵp yn Llambled nôl ym mis Medi. Y peth gorau i fi wneud.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Cytuno i fynd i'r sinema gyda Danny.

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Ford Fiesta.

Beth yw dy hoff wisg?

Mae'n dibynnu, rwy'n hoff o wisgo lan i fynd mas gyda'r merched ond rwy hefyd yn hoffi gwisgo joggers a hoody pan rwy'n cael lazy day.

Beth yw dy ddiod arferol?

Juice neu vodka, black a lemoned.

Beth yw cynnwys dy oergell di?
Llaeth, llysiau a heptovac.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

The Cavedon women gan Barbara Taylor Bradford.

Beth yw dy hoff arogl?

Arogl petrol.

Sut wyt ti'n ymlacio?

Ar y sofa yn gwyllo'r Walking Dead.

Hoff gân ar dy ipod?

'The anthem' gan Good Charlotte.
Wastad yn atgoffa fi o rasio quads.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?

Billy Elliot

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Tim a Twm y cathod.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Chwarae y gitar, rwy'n difaru peidio ei ddysgu fe pan oeddwn i'n blentyn.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?

Dyrcheffir Fi a rhywbeth gan Stereophonics.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?

Rwy'n dda am beidio gorwario ond y peth diwethaf oedd mynd ar spa day, bach yn ddrud ond yn neis i gael amser i ymlacio.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Teulu

Arferion gwael?

Cnoi ewinedd

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?

I ddarllen meddyliau pobl.

Petaet ti'n anweladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?

Chwarae jocs ar bobl.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Steffan Thomas, Llanllwni.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmman, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

6	1		9	3		8
8			7			5
	7					
			2			3
	2		3	7		9
	8			1		
						1
7				3		6
9			1	8		4 3

Swdocw Mai:

Llongyfarchiadau i Georgina Kersey, Wernheulog, Cwmman ac i bawb arall am gystadlu: Susan Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug; Bryn Hughes, Cwmere, Felinfach; Sian Blake, Penlon Cottages, Gorsgoch; Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin; Betty Prytherch, Tyngrug, Llanllwni; Glenys Davies, Rhydybont, Llanybydder; Rob Phillips, Llety Clyd, Llanbed a Lynwen Davies, Glasdir, Llanybydder.

9	1	7	5	2	4	3	8	6
6	5	8	3	1	7	9	2	4
2	4	3	8	9	6	5	7	1
4	7	2	1	3	5	8	6	9
8	9	1	7	6	2	4	5	3
3	6	5	9	4	8	2	1	7
1	2	6	4	5	9	7	3	8
7	3	4	2	8	1	6	9	5
5	8	9	6	7	3	1	4	2



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel wrth i mi ysgrifennu'r llythyr yma atoch mae'r haul yn gwenu'n braf arnaf ac rwyf wrth fy modd yn torheulo yn yr ardd. Digon o hufen iâ a sudd oren oer. O dyma'r bywyd i grwbau fel fi!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun y ceffyl a'r ebol bach yn y cae mis diwethaf. Da iawn chi. Roeddwn yn hoff iawn o lun Elliw Davies o Groeslan, Nic Richards a Cian Richards o Landysul, Ryan Evans o Henllan, Cai Jenkins o Horeb, Joe Prichard o Fangor Teifi, Gracie Oakley o Landyfriog a Jac a Mari Rees o Gwmsychpant. Da iawn chi. Ond llun gorau'r mis yma yw un Sioned Kersey, Wernheulog, Cwmann. Llongyfarchiadau mawr i ti Sioned!

Ddoe mi fues i allan yn yr ardd yn plannu blodau yn barod ar gyfer yr haf. Dw i wrth fy modd yn edrych allan drwy'r ffenestr a gweld yr holl flodau amryliw. Felly beth am fynd ati i liwio llun y blodau yn yr ardd? Cofiwch ddychwelyd y llun nôl i mi cyn gynted a phosib.


Ta ta tan toc.



Enillydd
ymis!

Sioned
Kersey

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:


Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



PANTYFYDA

Ar fap hen gyfres yr Arolwg Ordnans (Carmarthenshire XV SE) yn 1887 (cyhoeddwyd 1888) ceir yr enw Pant-y-fyda (SN556366) ym mhlwyf Llanfihangel Rhos-y-corn. Yr elfen anghyfarwydd yn yr enw yw 'byda(f)'. Er mwyn ceisio egluro'r enw hwn rhaid troi i fyd y gwenyn ac at elfennau yng Nghyfraith Hywel Dda (c. 950) oedd yn ymwneud â gwenyn.



Mae'r fersiwn o'r Gyfraith a oedd yn weithredol yn yr ardaloedd hyn yn cynnwys trafodaeth fanwl ar enwau gwenyn ac yn rhoi gwerth ar y gwenyn hyn. 'Modrydaf gwenyn' oedd yr enw ar yr haid o wenyn a berthynai i'r

cwch yn wreiddiol. Gwerth y 'modrydaf gwenyn' oedd 24 ceiniog yn ôl y Gyfraith. Mae'r elfen 'modr' yn gytras â'r Lladin 'mater' sef mam ac mae 'bydaf' yn gynnwysiedig yn y ffurf 'modrydaf'.

Yr enwau ar y tair haid a ddeilliai'n uniongyrchol o'r modrydaf oedd Cynythiad, Ail haid, Trydydd haid. Gwerth y Cynythiad oedd 16 ceiniog; gwerth yr Ail haid oedd 12 ceiniog; gwerth y Trydydd haid oedd 8 ceiniog.

Byddai'r modrydaf yn colli gwerth ar ymadawiad y gwahanol heidiau. Gwerth y modrydaf wedi ymadawiad yr haid gyntaf fyddai 20 ceiniog; ei gwerth wedi ymadawiad yr ail haid fyddai 16 ceiniog.

Mae'r gyfraith yn manylu ar y gwahaniaeth rhwng y modrydaf gwenyn a a fyddai'n cael eu cadw o bosibl mewn rhyw fath o gwch gwenyn sef y gwenyn cadw. Dyma'r gwenyn a gâi sylw gan y gwenynwr. Ond ceir sôn hefyd am y 'bydaf yn y coed' sef haid neu nythaid o wenyn gwyllt. Gwerth y bydaf yn y coed oedd deuswllt ac roedd yn eiddo i'r arglwydd.

Roedd y mêl a gynhyrchid gan y gwenyn yn fwyd maethlon naturiol.

Roedd iddo, yn ogystal, rinweddau meddygol. Roedd, felly, yn nwydd i'w chwenych ac yn nwydd gwerthfawr. Dyma drefn sy'n cael ei goffâu yn Pantyfyda, Llanfihangel Rhos-y-corn.

Ymweld â'r Eidal

Disgyblion Ysgol y Dderi tra'n mynychu cyfarfod Erasmus+ yn yr Eidal yn ddiweddar yn ymweld â Thŵr Pisa.



CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

A oes angen trafnidiaeth arnoch - BWCABUS

Mae Bwcabus yn rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol drwy ddefnyddio siwrneiau a archebir ymlaen llaw a/neu wasanaethau amserlen sefydlog.

Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am - 7pm
Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn o 7am - 7pm



I ddod cyn bo hir ...
Diwrnod Cymorthfeydd Bwcabus

Dewch i ddysgu mwy am y gwasanaeth a'n cynigion hyrwyddo arbennig ar gyfer Wythnos Dal y Bws.



Amserlenni Gwasanaethau Llwybr Sefydlog Bwcabus - Dim angen bwcio

617 Bwlchfadfa - Llanbedr Pont Steffan

Drwy Talgarreg - Gorsgoch
Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Bwlchfadfa, gyferbyn lloches	10.20
Talgarreg, Neuadd	10.23
Gorsgoch, Neuadd	10.31
Cwrt-newydd, gyferbyn Llew Goch	10.35
Drefach, cofeb	10.40
Llanybydder, Heol-y-Gaer	10.46
Alltbylclla, Chapel House	10.51
Llanwnen, gyferbyn Bro Grannell	10.54
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	11.00

am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	1.45
Llanwnen, Bro Grannell	1.51
Alltbylclla, Chapel House	1.54
Llanybydder, Heol-y-Gaer	1.59
Drefach, croesffordd	2.05
Cwrt-newydd, Llew Goch	2.10
Gorsgoch, gyferbyn Neuadd	2.14
Talgarreg, gyferbyn Neuadd	2.22
Bwlchfadfa, lloches	2.25

618 Talsarn - Llanbedr Pont Steffan

Drwy Bwlchyllan - Silian
Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Talsarn, gyferbyn Maes Aeron	9.25
Bwlch-Ilan, Capel	9.32
Llangeitho, sgwar	9.40
Silian, lloches	10.02
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	10.10

am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	12.50
Silian, lloches	12.57
Llangeitho, sgwar	1.19
Bwlch-Ilan, lloches	1.27
Talsarn, Maes Aeron	1.34

Os nad yw amserlenni'r llwybrau sefydlog yn diwallu eich anghenion, rhowch gynnig ar wasanaeth ymatebol Bwcabus. Ffoniwch 01239 801 601.

Yn ogystal gall teithwyr sydd â cherdyn teithio ar fysiau deithio AM DDIM



University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Traveline Cymru
0300 200 22 33
www.traveline.cymru



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Buddugwyr Rali CFFl Sir Câr



'It's a Knockout' 1af – Meryl, Ifor, Sion a Zac; Creu 'Time Capsule' 1af – Hefin Jones; 'Generation Game' 2il – Sara Thomas a Luned Jones - Llanllwni.



Sioe Ffasiwn 3ydd - Manon, Sara a Sally Cwmam
Gosod Blodau 2il - Nerys Thomas Llanllwni
'Generation Game' 2il – Iestyn Russell a Rhian Thomas Cwmam
Coginio Hŷn 1af – Ceiros Lewis a Jac Jones; Treialon Cwn Defaid 2il – Ifor a Betsan Jones; Crefft 1af – Meryl Davies, Siriol a Ceris Howells - Llanllwni.



Gwaith coed hŷn 1af – Carwyn Lewis ac Arwel Jones, 3ydd – Sion Evans a Dan Joynton - Llanllwni.